

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU.

CAERDYDD 1978.

CyStadleuaeth y Fedal Ryddiaeth.

*** **

TRWY'R DYFROEDD.

Pennod 1.

Pe bawn i heb gael fy symud o'r fan honno yng nghysgod tas wair
ryw hanner awr ynghynt, buaswn wedi'm claddu o dan lwythi lawer o
ysgubau yd. Er bod dau gocyn o leiaf wedi eu codi yn gytbwys, am ryw
reswm, goledodd yr olaf y tu hwnt i ddiogelwch tŵr Pisa, nes dymchwel
yn llanast ar bwys y das. Diau i'm tad neu un o'r dynion synhwyro'r
perigl mewn pryd, a symud y goits fach i le mwy diogel. 'Does gen i
ddim co faint oedd fy oed i, ond mae'n rhaid fy mod i rywle o'r pump
i'r wyth. Fe allech chwi'n hawdd ddweud fy mod yn nes i ddwyflwydd, os
oeddwnyn eistedd mewn coits. Ond go brin y buaswn yn cofio gweld y cocyn
ydwinnw yn dymchwel ynnyr oedran hwnnw. Y rheswm am fy mod yn eistedd
mewn coits oedd na fedrwn i ddim cerdded fy hun, heb afael yn llaw
rhywun, yn bump, ac am flynyddoedd wedyn. 'Chadodd fy nhad a'm mam ddim
profi'r mwynhad a'r wefr o wylod'i hunig blentyn yn mentro'i gam cyntaf
o'u gafael. Wrth ddisgwyl yn hir ac yn ofer, bu raid iddynt wynebu'r
ffaith annifyr fod rhywbeth o'i le arnaf.

'Roedd fy rhieni, ill dau, dros eu deugain oed yn priodi. Mae'n
rhaid mai rhieni 'nhad a gymerodd y Gwilyndy Uchaf yn ardal Betws-yn-Rhos
wedi i rieni T.Gwynn Jones, y bardd, ymadael i ardal Hen Golwyn, ond go
brin fod yna unrhyw ^{egwyddon} ~~athrylith~~ ^{peri eu} yn eu ~~cefnal~~ ^{hwy} i symud ~~hwy~~ ^{hwy} oddiyno.
Unig ddawn fy nhaid, oedd ffermio, awdiota, yn ol pob sôn, Ond fe'
symudwyd ef a'i briod- i'r fynwent, a gadael ^{tri} ~~tri~~ mab ar ôl, i bara

'mlaen ar y fferm. Ond fe daeth elfen symudol arall i'w h aflonyddu. Penderfynodd F'ewyrth John briodi merch Peniarth Fawr, a'i gwneud, wrth gwr, yn feistres y Gwyndy Uchaf. Y nesaf i anesmwytho oedd Owen; rhoes ef ei fryd ar ferch oedd yn byw gyda'i nain ar fferm gyfagos, Sarah Lloyd Davies wrth ei henw. Mewn cyfnod pan oedd yn rhaid i blant ufuddhau i'w rhieni, yn gam neu gymwys, bu raid i mam adael Ysgol Fwrdd yn Llanrwst, ar wys ei thad, a mynd i ofalu am ei nain weddw yn Bron Pistyll. a hithau yn ddim ond pymtheg oed. Prin undonnog fyddai ond huawdl ~~fu~~ sylwadau mam ar y chwarter canrif hwnnw o dan lygad gornesol ei nain. Yn ol a glywais gan berthynas i 'nhad, rhuthro adre a wnai o bob oedfa a chyfarfod, er mwyn osgoi ensyniad o fod efo'r hogiau. Er gwaethaf hyn, fe gafodd hithau un ysbaid o wyliau gyda'i hewyrth yng nghyffiniau Caerdydd. Profiad newydd hollol oedd hwn iddi, a phleserus, mae'n amlwg, oherwydd fe fu'n son amdano amryw weithiau. Ond mae ei charwriaeth a Nhad yn llyfr llwyr gaeedig i mi: 'ddwedodd hi ddim wrthyf, a wnes innau ddim stilio. Beth bynnag, fe'u priodwyd rywbryd yn 1920, a 'nhad yn saith a deugain, a mam yn chwe mlynedd yn iau.

Wedi priodi, mentro. ar waethaf eu hoed, i brynu fferm mewn ardal arall, a drudaniaeth y Rhyfel Mawr cyntaf yn ei dwysau. 'Roedd ardal Eglwysbach yn fwy cyfarwydd i mam: na i 'nhad: oddiyno y daeth ei thaid a'i nain, efo yn fab y Dyffryn ac o'r herwydd yn frawd i fam John Evans, y pregethwr hynod, gariodd enw'r pentre i bobman. Fferm chwaer arall heb fod ymhell oddiwrth yr Henryd, yr un a ddaeth i feddiant fy rhieni. Felly 'doedd hi ddim mor anodd iddyn 'nhw ymgartrefu. Ond, ysywaeth, fe gostiodd y fferm newydd dipyn mwy *

un o gerddorion amlycaf Cyru, ac arweinydd cyranfaoedd canu, yn eistedd gyda rhywun arall wrth ferdd o'm blaen. Gyda i mi eistedd i lawr, clywsais ef yn dweud ei fod yn methu deall sut 'roedd pobl fel fi yn gallu awynhau bywyd. Roeddwn i yn rhy swil i'm cyflwyno fy hun iddo i ddweud wrtho beth oeddwn yn ei wneud y dyddiau hynny. Sfallai y byddai'n lledio canu a chael gynulleidfa i ganu "Yn raswlin ar y groes/fe drois y drain./Caed bala o archoll ddofn/y bicell fain." Mae gwahaniaeth mawr rhwng canu canu a'i weld yn gweithio ei hun allan yng nghanol ffeithiau celyd bywyd bob dydd. Bu digwyddiad arall chwythig yr ail noson yng Nghasnewydd. Wedi i mi gael gwesty yno trwy gyfrwag y Spastics, y darganfu y wraig a gytunodd i'm derbyn yn sydyn na allai fy nghymeryd a chymerodd arni na wyddai ddin byd andanaf, bu raid imi o hynny hyd hanner nos, chwilio am westy arall, ac onibai i rywun fethu cyraedd un lle buaswn allan drwy'r nos. Yn ffodus cefais ei wely ef. Yn rhyfedd iawn fe drodd pethau yn well hyd yn oed na phe bawn wedi cael y gwesty cyntaf. Cefais arbed pymtheg swllt ar hugain yn un peth, ac at hynny dim ond tair gris oedd i'r ystafell wely, buasai'n rhaid i mi dderingo llawer mwy yn y llall.

Mae'r hanesyn hwn yn wir yn ddarlun bychan o'm bywyd oll. Bu'n anturiaeth gyda'i ddigwyddiadau hapus a thrist, digalon ac fel arall. Dois adref o Plymouth ac o lawer taith arall yn ddianaf er holl beryglon y daith. O fewn milltir i'm cartref byddwn yn falch ac yn ddiolchgar fod diwedd y daith ar ben ac fod cartref yn yayl. Wn i ddaia faint fydd hyd taith fy nywyd. Wyr neb arall chwaith on yr un teimladau sydd yno a sydd wrth ddod adref yn fy ngherbyd. Diolch am holl anturiaethau'r daith. Diolch i'r llu cyfeillion am helpodd. Diolch i'r rhai a roes gyfrifoldeb imi, ac a'm triniodd fel person, ac nid fel methedig: am gael bod yn ysgrifennydd y M.E.A. a chyngor yr eglwys lleol: i'r eglwys am hethlodd yn flaenor ynddi. Diolch i bawb. Hoffaf ffordd yr eglwys esgobol o gychwyn cynhebrwng, yr offeiriad, yn cyfarfod yr arch wrth y porth ac yn herio angau gydag adnoddau o'r Testament Newydd, "Myfi yw'r Atgyfodiad a'r Bywyd, yr hwn sydd yn credu yno fi, ni bydd marw yn dragwydd.."

"HIRAETHLYS".

nag a roddwyd amdani wrth ei phrynu: bu'n rhaid suddo cyfalaf i'w thir gwael a'i beudai adfeiliedig. Pobl eraill a gafodd ffrwyth eu llafur. A phan ddaethum innau i'r byd yn Hydref, 1921, daeth ynamlwg y byddai'n rhaid gwario arian gloywon i feddygon ac ysbytai, ~~er mwyn seisio=rhyw=atet=beddhael~~ i'r parlys a rwystrai fy natblygiad ~~chwilio am feddyginiaeth~~ normal i.

Diau i'm rhieni ofyn y cwestiwn pam y digwyddodd hi felly. 'Doedd oed mam ddim yn help, ac fe fu awr y geni yn un anodd, anodd. O nd fe all mamau ifainc gael yr un ffawd, a chael plant llawer gwaeth eu cyflwr na mi. Digwyddodd rhywbeth arall a allai ~~achosi~~ ^{rodd wrdi} i'r nam, sef damwain a gawsom ni'n tri mewn car a merlen oedd yn anifail nerfus ar y goror ~~fa~~. Dod adref yr oeddem ni, a minnau yn fabi yng nghol fy mam, ar ffordd yr ucheldir sydd rhwng Betws yn Rhos ac Eglwysbach, pan gododd dau ddyn yn sydyn o fon clawdd a dychryn y ferlen, nes iddi ~~garlannu~~ ~~chont~~ yn ddilywodraeth i lawr allt serth, a 'doedd dim i'w wneud ond t oi'r cerbyd drosodd, a'ilwyth o dri yn cael eu lluchio yn erby n un o'r cloddiau. gan beib niwed i ysgwydd mam, wrth iddi geisio fy arbed i mae'n siwr. 'Chefais i ddim niwed, i bob golwg, ond bu dyfalu dwys yn ddiweddarach ai'r ddamwain honno oedd gwir achos fy methiant,

Beth bynnag, daeth yn bur amlwg na fendiwn i ddim trwy wybod yr achos. A minnau bellach yn dair oed, dyma benderfynu f'anfon am driniaeth lawfeddygol i ysbyty y Royal Southern yn Lerpwl bell. Newid cyfeiriad fy neudroed oedd eu hamcan, gan eu bod yn gwyro i ^{wn} ~~mewn~~ yn ormodol. Mae creithiey'r driniaeth honno yn aros, wrth gwrs, ar gefn y sodlau, ac un arall llai amlwg, uwchben y glun chwith.

Dibynnaf yn llwyr ar gof fy mam wrth son am y naw mis a dreuliais yn Lerpwl. Ni chofiaf ddim am loes gadael cart⁵feuniaith Gymraeg i ganol aroglau ^dsiheini^eedig, ac awyrgylch llwyr Seisnig yr ysbyty. Ymddengys i rywun ofyn i mi, yng nghlyw mam, o bawb, bachgen bach pwy oeddwn i, yr ateb gafodd oedd mai Nurse White, praw go gry fy mod wedi ~~g~~cynefino A'r lle ~~se~~ wedi gwneud estrones yn fam imi. Torrwyd fy nghysylltiad a'm cart⁵fe yn llwyr, ar waetha'r ffaith fod fy rhieni'n ymweld mor aml ag y caniat⁵pellter iddynt, a bod gan mam gefnder oedd yn weinidog ar gapel Princes Road ar y pryd, sef y Parch. H. Harris Hughes, Prifathro Coleg Diwinyddol Aberystwyth wedyn. un oedd yn ddolen gysyllt⁵ bwysig iawn iddynt. ^{Hefyd, roedd} Roedd yna berthnasau i gydnabod yn byw yn Lerpwl, ac felly 'doedd fy nhad a'm mam ddim heb wybod fy hynt a'm helynt. Fodd bynnag, bu'n rhaid i'r staff yr ysbyty, rywdro, eu hysbysu fod yn rhaid fy symud i un arall oedd yn delio ~~ar~~ heintiau: 'roeddwn i yn ngafael y dwymyn goch! Yn y dyddiau hynny 'roedd haint o'r fath gymaint yn fwy peryglus, a ^{rhaid} ~~g~~aid oedd dod yr holl ffordd i'm gweld i Fazarkerley, ond wedi dod, ^{dim ond} ~~cael~~ edrych arnaf o bell, a thrwy'wydr yn unig, a gafodd y ddau. A'r bodlonrwydd o'm gweld i yn edrych yn ol arnynt, fel pe bawn wedi eu hadnabod. Pa mor ddwys bynnag oedd yr argyfwng y bum i ynddo, gwella fu fy rhan, a dychwelyd i'r hen ysbyty.

A chaelddod adre hefyd, yn y man; a 'nhad yn gwylltio'n gaelwm wrth fy ngweld wedi teneuo gymaint, yn dangos na chefais i'n agos ddigon i fwyta tra sum yno. Ni allai ef ~~wed~~ fod yn rhaid i ysbytai yn y dyddiau hynny ddewis rhwng bwydo claf neu roi ffisig iddo;

cyfraniadau gwirfoddol y cyhoedd a thâl y cleifion oedd yn eu cynnal a'u cadw.. Ond fy nghyflwr gweledig i, yn hytrach na phroblemau'r ysbyty a gythruddai 'nhad: yn gymaint felly nes iddo w^{LC}ethod imi gael unrhyw archwriad na thriniaeth pellach, fel yr arfaetha meddygon. Gartref, felly, y cefais i aros am bedair blynedd o leiaf, ynghanol digonedd o gig moch ac wyau a bara menyn cartre. a mam yn pr^{LC}poteli o olew iau penfras--cod liver oil y galwai hi ef--a rhywbeth a elwid yn 'Roblin' a chanddynt yr enw i beri nerth i gyhyrau'r ^{LC}corff. Rhag ofn y gwnaent hwy leihau effeithiau'r parlys, oedd bellach, ond i raddau gwahanol, yn amharu ~~ar~~^{pedwar} aelod, Fedrwn i ddim siarad yn rhy eglur chwaith; ond deallai fy rhieni ddigon i wybod na siaradwn Gymraeg! Wedi cael naw mis o ymarfer, Saesneg Lerpwl a barablwn i, a hwythau'n gorfod troi i'r iaith honno er fy mwyn, tipyn o broblem i 'nhad, yn enwedig. Ond buan iawn y collais i fy Saesneg, ynghanol y mor o Gymraeg a'm hamgylchynai bob dydd. A 'chredaf i ddim ^{LC}unrhyw niwed seicolegol, parhaol wedi digwydd, wrth newid iaith, ddwywaith drosodd.

Bu bron imi golli fy Nghymraeg drachefn pan anfonwyd fi am driniaeth bellach i ysbyty Gobowen, ger Croesoswallt, ar waetha fy mhenderfyniad ^{LC}seithmlwydd oed. ^{LC}Fy ffordd i o achub yr iaith yn 1928 oedd canu; canu emynau, achos wyddwn i ddim byd arall! Ond, ar ol dechrau brawdfrydig, disodlwyd y gân gan weithgarwch arferol a estronol yr ysbyty, a barhaodd am wyth mis, nes dychwelyd adre yn cofio'n sydyn am eiriau Cymraeg yng nghanol brawddegau Saesneg, meg "Where is the--gath?" 'Doedd y bachgen seithmlwydd dim wedi ei anghofio'n llwyr.

Bum dan driniaeth lawfeddygol yng Ngobowen hefyd, ac mae ^{LC}gen i

frith gof gweld--ac aroglï--cadach y ^{clo} ~~claw~~rofform yn cael ei ddodi
 ar fy wyneb, a'r braw o deimlo fy hun yn llithro i ebargofiant.
 Atgof arall am yr amser dreuliais imyno yw ^u ~~syn~~ y ^u ~~trenau~~ yn rhybedio'r
 rheiliau yn nhrymder y nos, y rheini'n fy rhwystro i gysgu. Rhyw
 elfennau anfelys fel yna sy'n nodweddu'r cyfnod. Cael anrhegion o
 lyfrau gan gymdogion a ffrindïau, ond yn mynd ar goll, er mor werthf
 fawr oedd rhai ohonynt. ^{Byddai'r PLANT} ~~Byddai~~ plant yn cael gwersi ysgol, ond mae
 gen i deimlad mai cael fy nedael allan yr oeddwn i. Wn i ddim
 pam, os nad oeddwn i'n floesg fy nhafod. Wn i ddim ai yno, ynghanol
 plant anabl, tebig i mi fy hun, y daeth y profiad annifyr o fod y
 tu allan i lifeiriant gweithgareddau cyffredin pobl o'm cwrpas i'm
 hymwybod gyntaf, ynter ^u ~~ai~~ ^u ~~cynt~~ ^u ~~de~~ wedyn : beth bynnag, tyfu a
 wnaeth o'i ail-adrodd ^u ~~grosodd~~ a throsodd, yn graith ddofn yn fy
 enaid.

Cefais ddod adref, yn nghwrs amser, ac adre y bum i o hyyny
 ymlaen, er bod y meddygon yn dos i'm gweld yn weddol aml mewn clinig
 ym Mae Colwyn, a barhaodd drwy fy machgendod. Cynhelid fy nwy goes
 gan yr hyn alwem ni yn 'steels', - caliperau ~~yw~~'r enw swyddogol
 arnynt- dwy roden syth o'r glug i'r awdl oedd yn gwneud plygu'r
 pen glin yn amhosib a byddai'n rhaid i mam ymarfer y plygu bob tro
 ymtynnid hwy i ffwrdd, a gofalu nad oedd y cylchoedd caled a
 amgylchael'r cluniau yn peri niwed a phoen. Fuom ni ddim yn hir cyn
 eu tynnu am y tro olaf, gan eu bod yn fwy o rwystr nag o help.

Pennod 2

Mae dyffryn Hiraethlyn, lle saif pentre Eglwysbach arno, yn peri i mi ddychmygu am aderyn anferthol o fawr yn eistedd ar y llain tir a'i wasgu ilawr yn nyth iddo'i hun. Llan o wastatir ~~edd~~ ⁱ wedi ymgar hennu oddiwrth ddyffryn Conwy, sy'n hirach o lawer, a bryndir ynei amgylchu, a ffyrdd serth tu hwnt i'w dringo bob tu ag eithrio honno sy'n pasio Plas Bodnant i drefi glan môr Conwy, Llandudnoa Bae Cŵlwyn. Ond brithid y llechweddau gan ffermydd o ddeugain acer a hwy, ac un ^honynt hwy, a safai ar ochr ddwyrein- iol y gwastatir oedd ffarm fy rhieni. Gallem weld o ffene tr y llofft ffrynt y rhimyn un stryd o dai a elwid 'y Llan' gennym ni. 'Roedd y tŷ yn ddigon uchel inni syllu ar fynyddoedd sir Gaernarfon yn arglwyddiaethu y tu hwnt i gefnen orllewinol y dyffryn. Wynebai'r drws ffrynt yr un olygfa: dyna'i unig bwrpas, yn rhyfedd iawn, oblegid, er hŷd iddo gyntedd, camu i wyrddleuni cae a wnaï dyn wrth fynd trwyddo. Trwy ddrws y cefn yr aipawb i'w ffordd o'r Henryd. Gwraig yr un a'i cododd a fynnod iddo fod felly. Enghraifft o harddwch golygfa yn newid pwrpas drws ffrynt!. Gellid mynd yn syth o'r gegin drwy'r ddau ^{ddrws} ~~drws~~, ag eithrio'r rhaid i osgoi'r grisiau o ddrws y ffynt, neu ddewis mynd i'r perlwr ar y dde: y twll dan y ^{y grisiau,} wynebu'r drws cefn, a'r tŷ llaeth yn union i'r chwith. Yn union y tu allan iddo, safai'r briws, a barai fod yr adeilad, felly, ar y lythyren L. Tipyn yn is i lawr yr hewl y safai talcen y sgubor, a llidiart fawr ~~h~~earn yn rhwystro crwt bach fel firhag mynd i peryglon y beudy a'r stabl, a drws yr olaf yn wynebu'r hewl; y

cwt moch, lathenni ymhellach, a ddai yn olaf, ag eithrio'r hofel droliau oedd gyferbyn. Perllan a ffiniai'r hewl yn syth wedyn, nes dod at giat y ffordd, perllan yn llawn o goed ffrwythau, megis eirin, afalau, cy rens duon a gwsberis, allai fod yn demtasiwn i ladron, oherwydd ei phellter oddiwrth y tŷ. 'Roedd yna furddun yn iss i lawr y ffordd, a elwid yn Henryd Bach, a'i ddarn bach o ^{ardd} ~~ardd~~ yn eiddo i ni; ceid yno hefyd rai coed eirin. Ond er mor bell oeddynt, byddai mam yn gwerthu pwysi lawer o ffrwythau, yn ogystal a'u stiwiio, a'u berwi yn jam cartre a dynnai dd ^{dd} ~~dd~~ ddannedd dyn.

Dyna, yn fras, gynefin fy mhлentyndod, 'lle bum yn gware gynt.' Gallwn, mi allwn innau, a mi fyddwn yn chwarae, yn fy ffordd fy hun. 'Roedden innau fy nhaganau, a daethum yn feistr llwyr ar eu malu! Sylw un cyfoed a pherthynas ar y sefyllfa oedd fod y peth a'r peth 'wedi gweld ei firt ^h ~~day~~!' Byddai fy chwilfydded i yn berigl bywyd i berfeddion unrhyw declyn a gawn. Cofiaf imi gael ^h rhodd gan Mr. Rogers y Gweinidog unwaith; blociau bach o wahanol liwiau, a llythrennau'r wyddor arnynt, os cofiaf yn iawn. Eu rhoi ar bennau eu gilydd y byddwn i, mae'n debyg, a'u gwrthio'n llanastr ar fwrdd ac ar lawr. ~~Da~~ 'Un ^h ~~ar~~ lawr'! fyddai fy nghri yn aml, nesi rywun arall ei godi imi; Ori arall oedd gen i pan ddi plentyn i'r drws fyddai, 'Ddowch chi i chwarae'! Mae'r caf ^{an} ~~an~~ yr esgus d ros wrthod yn ddgfnach ei argaff ar y meddwl na'r un ymunodd yn y chwarae. Wrth gwrs, mae'r ffin rhwng y difri a'r chwarae yn denau ryfeddol ym mywyd plentyn. Yn aml, fe drown i lawr y tŷ yn ^{le} ~~le~~ rasio ceir. Rhoddai mam fi mewn math o focs pren oedd yn lledu i ^g ~~g~~ yceiriad y llawr fel hod digon o le i'm coesau symud wrth gerdded, ~~at engh~~

a thair olwyn dano, oeddyn ^{rw}ffwyth ymennydd dyfeisgar ei hewyrth;
 a minnau wedyn yn sgrialu ar draws hyd a lled llawr y gegin, ac
 felly, tra'n mwynhau clywed ^wyn yr olwynion bach haearn yn rowlio
 dros garreg las y ty, ^cai cyhyrau anystwyth fy nghoesau eu hymarfer
 yn gyson. Ond buan iawn y tyfais i'n rhy fawr i'r ^cerbyd bach
 hwylus hwnnw, a chymerodd mam ei le drwy fy nhywys yn ol ac ymlaen
 ar hyd y gegin. Gwaith llai pleserus oedd hwnnw. Ond fum i ddim yn ~~h~~
 hir cyn ffeindio ffordd arall o ymlwybro, sef gafael mewn cadair
 wiail, a geid yr adeg hwnnw mewn ystafelloedd gwely, a'i chario o'm
 blaen bob yn ddeugam. Ond peri i mi grymu, ysywaeth, a wnaï'r dull
 yma o symud, a hefyd lesteirio cam y goes chwith; oblegid byth er
 hynny, dyna'r duedd; crymu, a cham y goes chwith yn fyrrach na'r
 lla^ll, y cam, sylwer, nid y goes. Ond gwell oedd ymlwybro felly
 na pheidio mynd o gwbl, fel y digwyddodd hi'n nes ymlaen, pan ~~ymlaen-~~
~~dorodd~~
~~hwyrodd~~ y gadair wiail dan bwysau'r gwaith anghyffrredin a gafodd.

Os bu hi'n anodd ini ymlwybro o gwmpas y ^{RTLE}cabre, anoddach fyth
 oedd fy llwybr i'r ysgol. Cefais fy ngeni o leiaf ddeugain mlynedd
 yn rhy gynnar i elwa ar y manteision a gaiff plant methodig y
 dyddisau hyn. Brwydr fu hi i mi gael ysgol o gwbl yn niwedd y dau
 ddegau, a mam yn ymlafnio dros of, yn benderfynol, nes i'r awdur-
 dodau addysg, drefnu, a minnau'n grymffast deg oed, fod Mr. Griffiths
 yr ysgolfeistr yn fy nol i'r ysgol a'm danfon adre drachefn yn ei
 gar. Tybed ai fi oedd y cyntaf ym Mhrydain igael rhywbeth sy'n
 rhan o fywyd ysgol pob plentyn erbyn hyn? Hoffaf feddwl hynny!
 Ond mae'n rhaid fod yna bwysau dygn wedi bod arnynt i drefnu felly.

Mae'n debyg fod fy ngallu innau i dderbyn gwybodaeth wedi

helpu peth, oblegid 'doeddwn i ddim yn hollol ddwl. O leiaf, gallwn ddarllen Cymraeg a Saesneg yn weddol. yn wir yn ddigon da, nes imi gael braint arbennig o gario llyfrau o lyfrgell yr ysgol yn union wedi imi ddechrau ei mynychu. Yn yr Ysgol Sul y dysgais i'r Wyddor Gymraeg, o dan gyfarwyddyd merch a dreuliodd ei hoes forwynol yn cychwyn plant bach pobl eraill ar lwybrau gwybodaeth yn yr Ysgol Sul a'r un ddyddiol; a'u plant hwythau hefyd. Miss Jones, Elwy Cottage oedd hi i ni, ac mae fy nyled i yn fawr iddi, er na fu'n athrawes arnaf ar wahân i'r cyfnod cynnar yn yr Ysgol Sul. Ond ^Sofiaf amdani yn dod a gwaith raffia i mi ei nodwyddu rhwng llinynnau a dyllwyd i ddarn o gerdyn caled a chrwn enghraifft o therapi gwaith, ymhell cyn bod son amdano yng nghoridoriau yr un ysbyty debig.

Ond nid drwy'r Ysgol Sul yn unig y down i nabod y llythrennau, eithr drwy fodd arall, dipyn llai confensiynol: sylu a sylwi ar lythyren gyntaf pennodau'r Beibl, neu emynau, neu erthyglau yn Nhrysorfa'r Plant, gan eu bod yn frasach na'r gweddill, a rhai'r misolyn yn llawn trimins; tynnu mam o ganol prysurdeb ei gorchwyl wedyn, eisiau gwybod beth oedd hi. Mor ffodus oeddwn i fod rhoi gwybodaeth i'w phlentyn yn bwysicach gan mam na mynd ymlaen A'i gwaith! Ac mi 'roeddwn i yn un plagus am holi a stiio, ac yn rhoi Mam mewn cornel weithiau. Unwaith bu raid iddi geisio dadrys problem ddiwinyddol. Byddai'n arfer ganddi ddarllen pennod o'r Beibl cyn noswyllo bob nos, hi, nid fy nhad. Byddai raid i minnau ddy^Sgu adnod a phennill ar gyfer eu hadrodd yn yr oedfa bob Sul. Ar un o'r adegau hynny y daethum i wyneb yn wyneb a'r gwirionedd fod pawb yn bechaduriaid. Pob dyn. A dyma fi'n dechrau holi! Ac yn

dechrau enwi pobol dda y llan a blaenoriaid y capel, gan gynnwys yr enwocaf ohonynt, sef Owen Williams y cerddor! A mam druan yn gorfod tynnu ar holl adnoddau'r 'Hyfforddwr' a Geiriadur Beiblaidd Thomas Charles er mwyn osgoi cyfraith athrod! Ond wrth stilio felly y daethum^m i wybod, ac i ddarllen Cymraeg.

Gallwn ddarllen Saesneg hefyd! Byddai gan mam stori i'w dweud am y ffordd y dois yn gyfarwydd ^a honno. ^{Caws} ~~Baw~~wnlyfr Saesneg, un addas i blant bach, yn llawn o straeon am dderyn ^{ENW} ~~a~~ i'w ar fy nghof byth; parot a fedrai siarad, ~~Pretty Polly~~. ^W ~~Hwnne~~ oedd fy ffefryn i, mae'n rhaid, oherwydd darllennai mam rannau ohono yn aml, Caethiwyd fi i'm gwely gan bwl o salwch, ac un diwrnod dyna waed^d gan y carcharor o'r llofft: eisiau'r llyfr am Pretty Polly. Mam yn ei roddi imi. Hithau, a'i chwilfrydedd yn drech na'i phrysurdeb, yn clustfeinio y tu allan i'r drws, ac yn cael y pleser o'm clywed yn ei ddarllen fy hun: yn cofio rhediad y stori mor dda nes medru ei chysylltu ~~a~~ r geiriau argraffedig. Felly, yn anghonfensiynol ddigon, heb wybod trefn y Wyddor am flynyddoedd lawer, y daethum yn awchus am lyfrau o bob math, cyn dechrau yn yr ysgol, ^H Mam yn procio'n eiddgar a minnau yn ymateb. A'r ddeuheth yna berawediodd yr awdurdodau i drefnu imi gael mynd ^F ~~y~~ ysgol y pentre yn Eglwysbach.

(12)

33

PENNOD 3.

Bore Dydd Llun oedd hi a minnau'n chwarae wrth y bwrdd gyda bachgen^{fa} a ddaethai hefo'i ^{fa}fa, a hithau'n helpu gyda gwaith y ty. Daethai'r nyrs yno hefyd i roi ymgeledd i 'nhad oedd yn gorwedd ^{fa}ers pedwar mis ymron. BU'n cwyno byth er pan wlychodd, ag yntau^o yn llewys ei grys yn cynhaeafu yng nghanol niwl twyllodrus y mynydd. Cael ei ddirdynnu gan boen^o fu ei dynged o'r dydd hwnnw, a newid meddygon mewn ymchwil am adferiad, a'r rhe^{ei}eny yn ei gysuro gyda rhyw aflwydd fel gwynegon. Ond mi^oroedd hi'n dod yn ~~amlycach~~ amlycach bob dydd fod yr afiechydd hwn yn difa'i nerth^o ac yntau yn enwog am ei gryfder--ac ar Wyl Dewi, 1932, yr union ddkwrnod yr aethwn~~ni~~ i i'r ysgol am y tro cyntaf, aeth pedwar^o pared yr ystafell wely yn gynefin poen iddo. Y Dydd Llun hwnnw 'roedd gwyliau'r ~~ysgol~~ ^{HAE}ysgol wedi dechrau, a mam a'r nyrs yh y llo^offt ac yn sydyn gwelwn mam yn dod i^o lawr y grisiau gan ddseud fod 'nhad wedi marw. Gorchymyn i ni'n dau, i fynd allan ^aa minnau'n methu drall pam. 'Doedd dim llawer o awydd gwneud dim byd ar^ol y fath mwydd. Mae'n debyg mai ^Eeisiau cael ein ~~cefnau~~ ^oer mwyn ein gwarchod rhag dwyster eithaf digwyddiad, a hefyd i wneud y trefniadau ar gyfer y symud terfynol^o. A minnau yn ddeg oed, 'roeddw i'n ddigon hen i sylweddli difrifwch y sefyllfa, ond yr oedd ynof ~~ym~~ ryw gynneddff^o oedd eisiau gwneud y peth priodol mewn sefyllfaoedd arbennig. Byddwn yn plygu ~~kaf~~ pen yn selog ar ddechrau oedfa, er enghraifft. Euthum yn rhy bell y tro hwn, fodd bynnag; bu'n rhaid i mam fy ngheryddu am fod fy nghwynfannau^o diddiwedd yn rhy annidwyll iddi ei oddef. Ond llithr^o wnaeth y pedwar diwrnod prudd hys^o, o'u llyncu gan ymweliadau mynych gan berthnasau a chyfeillion o bell ac agos, a'r cynhebrwng ^opan ddaeth rhai o drigolion dwy ardal o leiaf i dalu'r gymwynas olaf^o iddo.

(13)

Os oeddwn i'n ymwybodol o'r golled a ddaeth i'n trwy farwolaeth 'nhad,
wyddwn i mo'r hanner o'r ~~rh~~ chwalfa a'i dilynodd, na'r boen meddwl a greithiodd
ysbryd mam ddyddiau'i hoes hir. Bu 'nhad farw pan oedd gwasgfa economaidd y
tri degau yn ei anterth, a ffermydd y wlad o'i herwydd yn byw ar eu bloneg.
Mae'n debyg, hefyd, fod morgais neu ddau oedd ar fy nghartref yn peri fod
pwpysau go drwm ar mam i werthu'r ffarm a'r stoc. Dyma wnaeth hi, er fod y crwt
deg ag oeddwn i eisiau ei gosod ar rent! Fe'i prynwyd yn y man gan ryw bobl o
gyffiniau Penmaenmawr, i'w mab yn y son. Cofiaf hwy'n dod i'r Henrys, a'u
dodrefn i'w canlyn. Y diwrnod wedyn dyna'r newydd syfrdanol yn ein cyrhaedd fod y
mab wedi "gwneud amdano'i hun", ein ffordd ni o ddweud iddo ladd ei hunan. Mae'r
modd y gallodd ei rleni dorri'r cytundeb gwerthiant a thalu'r ffarm yn ol ar
ysgwyddau ysig mam yn ddirgelwch iddi hi ar y pryd, ac i minnau yn awr. Bu'n
rhaid ei hallwerthu ar goedd gwlad, ac i'r uchaf i bris, a hwnnw ddacant a
hanner yn llai na'r gwerthiant cyntaf. Ac i'ldio, dan brotestio y byddai "wedi'i
tharwyn ei phen" a wnaeth mam yn y diwedd. ~~'Roedd gan un neu ddau o deulu 'nhad
fargais ar y lle.~~

Llwyddodd mam i guddio i'w misoedd nesaf rhagof yn llwyr. 'Roedd rhogyn
deg oed yn ~~rh~~ fanc i rannu gwarth a phoen wynebu cwrt y methdalwr, a hyd yn oed wr
wedyn soniodd hi fawr ddim amdano, dim ond am y canlyniad: sef bod hanner pob
dyled yn cael ei thalu, a hithau yn gorfod wynebu'r dyfodol du hefo rhyw hanner
cant o bunnau ar ei helw.

Yn y cyfamser, cawsom da uwch ein pennau gyda'i theulu ym Metws yn Rhos.
Bu 'nhaid farw ychydig fisoedd ynghynt, a daeth nain atom am gyfnod pan oedd
'nhad yn ei wely. Mae gen i ofn i'r cythraul gael llawn hyd y ffrwyn tra fu hi
hefo ni, oherwydd fe'i profociwn hi'n ddidrugaredd ar brydiau, a gwelais dagrau
yn ~~g~~illygaid unwaith neu ddwy. Mae'n ~~rh~~aid na chafodd mam wyboda: buasai'r
wialen fedw ar fy nghorpws yn bur sydyn. Er mai yn anaml y defnyddid hi arnaf

mor amaml yn wir nes bod argraff un gweir yn annileadwy ar y caf. 'Roedd gen i
gast annifyr o waeddi am rywbeth^A~~ac~~ wedyn ei wrthod, a hynny'n ddibaid. Bu'n
^{RHWBETH}
rhaid i '^{rywddro}nbad droi'r tu min ataf wrth y bwrdd ^{bwyd}~~bwyd~~ ar ol i mi wrthod; cymerodd fi
^{rywbeth}
ar fy ngair, a gorfod byw hebdo fu fy rhan am y tro. Mam weinyddod i wialen
arnaf y tro bythgofiadwy hwnnw, ac fe ^{WNA}~~wnaeth~~ les mawr imi! Buasai un arall ~~wedi~~
~~herwydd fy unddygiad etnaidd~~
~~gwneud~~ Bod yr un mor llesol. Maen debyg mai'r affaith fod yn aderyn diarth
~~SHERWOOD/FY/YNDDYGIAD/AT/NAIN/WEDI~~
wedi bdd zxzxxxcvcvzczzcxxxxxxx Janette Katan
Janette Katan Arian Wael Fgfgfg dfgdfgdffgdgfdgdf

Os bu ein harhosiad ar ffarm Rhwngddwyffordd yn boen a gwarth ym mywyd mam, bu'n gyfnod ~~ixxxx~~ hapus i mi. Ar wahân i gerdded ym ei braich, eistedd a chael ~~ff~~ fy nghwthio mewn cadair olwyn fu fy rhan. Ond fe ~~deai~~ ^{ddoi} amryw o'm cyfoedion cyfagos ataf, yn fynych, ac aent a mi gyda hwy ar eu hyntoedd drwy'r fro, ac i'w cartrefi. Cyfrifwn fwy nag un ohonynt yn ffrindiau imi, yn enwedig un, a ddangosai ei gomics i mi. Trysorfa'r Plant oedd yr unig gyfnodolyn allai mam fforddio'i brynu, ond cofiaf, a minnau dan ryw ~~saw~~ ^l uch yn fy ngwely, imi gael fy nifyrru gan ol-rifynnau o Gymru'r Plant, heb fod yn rhy hen chwaith. oblegid trwyddynt hwy y daethum yn gyfarwydd ag enwau 'cadfridogion' cyntaf yr Urdd. "Roedd darllen yn mynd a rhan helaeth o'm hamser, a chawn lyfrau o'r ddwy iaith o lyfrgell yr ysgol. Ond daeth fy nghyfaill a chomic oedd yn gwrthddweud ei enw! Rhagredegydd 'Dr. Who' yn ei holl ddychrynfeydd. Ond pan oeddwn yn awchu fwyfwy am eu cynnwrf, fe ddaeth terfyn sydyn iddynt. 'Roedd yna rywun yn rhywle yn sensro ein deunydd darllen ni!

(15)

DAETH HINNNU
Wrth edrych yn ol ar y pedwar cymeriad y bum yn ymrwbio a hwy y ~~chwydd~~ ^{hinnu} gwnnw.
rhyfeddaf at yr amrywiaeth ~~rhwyf~~ a'g nodweddaï. Yr hynaf ohonynt oedd y comediwr, a
naws Chaplin^{id}idd yn ei hiwmor, a ^{WNAI} ~~wnai~~ i mi chwerthin nes byddai fy mol yn
brifo^a a'm brest yn gaeth. Buasai ef, yn ei ddydd yn bencampwr Cymru a Lloegr
gyda'r aradr yn y preiminau troi pan oeddynt yn eu bri, er na chlywais i mohono
efi ^{YR IOD} ~~erioed~~ yn ^{SON} ~~sana~~ am ei orchest. "Welais i erioed mohono yn y capel; pam, ni
wn, ond gwyddai^{OEDD} beth hi o'r gloch mewn mwy nag un maes. Ef fyddai'r gwr busnes
yn y teulu, a byddai'n ddifeth ym mhob ffair a marchnad yn Abergele. Byddai ei
synnwyr digrifwch yn aml yn llwyddo i dawelu'r storm o dymer diamynedd^{ad} fyddai'n
~~modweddu~~ ei chwaer^{BP}. Eleanor. Wrth yr enw mwy cyffredin, Elin y'i gelwid
hi gennym ni. Hi oedd yn gyfrifol am ^{B-ARATOI} ~~bantoi~~ r prydau bwyd, ar gyfer y dyfion
yn gynsaaf. Byddai gan bob un ei briod le ar fainc a gydylltai a mur y ^{begin} ~~sc~~ a
Ai heibio^r ffenestr; f'ewyrth Robert Richard-y digrifwr- yn y pen~~ast~~ agosaf i'r
drws, Henry ei frawd, ac un a fuasai'n gweithio iddynt ers blynyddoedd lawer.
Gwelaf yn ^{CAF GLYFFIAU} ~~ar~~ ^a ~~len~~ y ^a ~~caf~~, glyffiau hir o frechdansu ^a ~~o~~ ^{DORTH} ~~dorth~~ waelod wenith
cartref yn cael eu tafellu'n ddeheig gan ~~ar~~ pen y bwrdd, a'i gyflawni a dim ond
un symudiad o eiddo'r fraich ar hyd y dorth! Mi fyddwn i'n cael braint arbennig
o gael fy mhryd gyda hwy weithiau, ond ar eu h^{ai}, a gyda'r merched y byddwn i'n
bwyta ran amlaf. Ond os byddai rhywun yn oedi dod, Ai modryb Elin yn ddynes flin
ar drawiad! 'Roedd ganddi hi lawysgrifen ^{ODIDOG} ~~odidog~~, ac ymfalchiai iddi gael
ysgrifeanu a cyflwyniad i fachgen ifanc oedd A'i wyneb ar y weindogaeth.

Arall oedd dawn ei chwaer ieuengach, Anne: llais alto gwyh oedd yn
cyfoethogi'r canu yn y capel^{AKWAF}, a Chai ddylanwad ~~aria~~ fi fel canwr pan ddigwyddwn
fod wrth ei hochr. 'Roedd y pedwar ~~ffafel~~ ei gilydd yn 'notars', fel yr arfer~~am~~
ddweud am ~~rai~~ yn medru darllen solfa, a chofiaf hwy'n canu emynau, yn bedwar
llais cynghaneddol, a minnau'n cael ymuno a hwy, ar Nos Sul cyn noswyllo.

(16)

Fe'u magwyd hwy bron ^{gyd} ar gystadlu eisyeddfodol. Pan ^{oedd} Eisteddfod Betws yn Rhos, a hwythau- yn ifanc yn ugeiniau olaf y gan rif ddiwethaf, byddai plant niferus Cefn Castell-amam yn eu plith-a'u cymdogion yng Nglanrafon bron a chymryd cyfarfod y prynhawn drosodd, ^{cyfarfod} a theuluoedd dawnus yn ardal Llangernyw yn ysgubo ~~ar~~rhelyw gwobrau cyfarfod yr hwyr. Diffyg disgyblu'r lleisiau fu'n gyfrifol am fod dwy ddawn lleisiol o leiaf yn cilio o'r llwyfan. Ond fe arhosodd y diddordeb yn eirias, a byddai'r pwyso a'r mesur a'r trafod ar gystadleuwyr amrywiol Eisteddfod Calan yn deilwng o farn arbenigwyr. Bodloni ar ganu alto a hod yn athrawes Ysgol Sul yn y Capel a wnaeth 'Anti' Anne. 'Roedd ^{gawddi} ganddi hithau ei swyddi priod ym mywyd y cartref: ~~pwst~~tan lysti, braidd yn wargrwm, yn hamddenol lanhau'r parlwr a'r llofftydd, neu'n pobi bara. yn y briws, neu yn mynd i'r pentre gyda'r nos i fan negesa; ac yn hwyr yn dod ~~at~~ y prydau bwyd a chael tafod gan ei chwaer yn y fargen!

Fy ewyrth Henry oedd yr ieuengaf o'r pedwar, ac ef hefyd oedd fy ffeffryn i. Rhadlonrwydd ei ~~ysbryd~~ a'i garedigrwydd tawel a gyfrifai an hynny, efallai. Ef a'm hyfforddai ym myd yr adrodd, wedi bod yn adroddwr ei hun, ac yn beirniadu eisteddfodau lleol, Cawswn i'r clwy cystadlu yn Eglwysbach dair neu bedair blynedd ynghynt. "Doedd byw na marw na chawn i gystadlu yno. Y mae' ^{son} ~~na~~ddimau fod yna gryn drafod wedi bod cyn rhoi caniatad i hogyn oedd a'i dafod yn dew, yn ogystal a a'i goesau yn anhylaw. Fodd bynnag, fy nhaerineb i a orfu. Aeth mam a mi i'r llwyfan ac eistedd y tu ol, tra saffwn innau a'm llaw yn pwyso ar gadair i adrodd darn o'r enw "Ben yn y Ffos," yn erbyn pedwar arall. Nid dyna'r tro olaf imi achosi dilema i feirniad adrodd, a rhoes Mr. Lewis Moelwyn Jones y ^Rboblem yn sgwar i'w gynulleidfa y prynhawn hwnnw: trwy gyhoeddi mai a'r pen, ac nid a'r galon yr oedd ef yn beirniadu. Rhagarweiniad i ~~ddyfarnu~~ r'nur wot i mi oedd y datganiad ^a ~~a~~chyflwyno'r un ddilema i feirniad yn y dyfod ol! Diddorol, wrth edrych yn ol, yw cofio'u hymateb. Caerwyn yn gwrthod ^{llwyfan} llwyfan i mi, ond yn gwneud sylw cyhoeddus o'm ~~performiad~~ yn y rhagbrawf. ~~ae~~ yn gyrru llyfr yn anrheg imi

Beirniad arall ym Metws yn Rhos yn dweud ~~yn dweud~~ yn blwmp ac yn blaen na ddylid caniatáu i'm bath i ymddangos ar lwyfan o gwbl. Ni chofiaf i'w sylw fennu dim arnaf fi, ond cynhrfodd f'ewyrth gryn dipyn; ofni yr oedd o i'r sylw beri na chystadlwn i mwyach. Beth bynnag, cefais wybod ganddo am sgwrs a gafodd gyda'r beirniad gonest hwnnw yn ddiweddarach, gan ddweud ychydig o'm hanes wrtho, ac awgrymu iddo efallai, mai peth peryglus yw lladd uchelgais neb. Gyda chefnogaeth a hyfforddiant f'ewyrth, parhau i adrodd a wnes i, er i'r ddwy farn fy nilyn i, megis erlynydd a diffynnwr mewn llys, mewn mwy nag un cyfeiriad, ar hyd fy oes. Nis anghofiaf byth y siom yn ei wyneb a'r cerydd yn ei lais pan ddwedais nad oeddwn am gystadlu un tro yn Eisteddfod y Calan. Diwrnod anhapus iawn fu hwnnw i mi. wedi clwyfo fy nghefnogwr pennaf, a thor/i am ysbaïd, ar gyfeillgarwch clos a barhaodd tra fu byw

Ei orchwyl pennaf ef ar y ffarm oedd bugeilio'r defaid. Bu raid iddo ef ymfodloni ar hynny yn hytrach na gweinidogaethu a bugeilio Eglwys. Rhyfel 1914-18 a'i rhwystrodd, oherwydd pe gadawai waith y ffarm am y weinidogaeth, buasai'r fyddin a'r rhyfel wedi ei hawlio. Gwnaed ef yn flaenor ac yn ysgrifennydd y capel yn y Betws, ond byddai'n colli oedfeunon yn aml oherwyd ei ofal am anifeiliaid y ffarm Perthynai iddo fanylrwydd artist. a throai weithgeddau'r ~~ffarm~~ yn gelfyddyd; hyd yn oed y gwrychoedd. Byddai'r rheini fel bwdd o dan oruchwyliaeth ei gryman; byddai'r ydlan, gyda'i deisi gwair a'i gocynnau yd yn peri i bobl a ai heibio aros a sylly ac edmygu fel ~~byddai~~ yn edrych ar ddarluniau'r meistri. Gresyn bo ei ddefnyddiau ef mor ddarfodedig. Mi gefais i y fraint drist o fod yn yr ysbyty

ac yn yr un ward ag ef yr wythnos olaf y bu byw, ein dau yn cyrhaedd yno yr un pryd, a minnau'n cael fy ngollwng adre ddiwrnod cyn iddo ein gadael am byth, ar ddiwrnod fy mhen blwydd..

Gofalodd mam fy mod yn cael ysgol yn y Betws hefyd. 'Roedd yna gryn dipyn llai o ffordd yno, a'f o'r herwydd, bu raid iddi hi fy olwyn yn ol a blaen. Amheua'f a oedd y brifathrawes yn frwd iawn i'm derbyn; y sylw oeraidd a gafodd ganddi oedd nad oedd dim gorfod aeth arnaf i fynd. Cafodd ateb yn syth mai fi fyddai'r colledwr.

Beth bynnag, 'chafodd mam ddim prinder cynorthwywyr i'm cario yno. Galwai plant amdanaf ar eu ffordd, i'm gwthio yn y goits, a'r unig orchwyl a gai mam oedd y cadw llygad ar yr orymdaith.

Yn yr ysgol ei hun, yr argraff cydd gen i yw bod y plant yn garedig, a bod tynnu coes yn brin iawn yn eu plith. Ymateb naturiol yr haid dynol i un od yn eu plith yw tynnu coes yn ddi-drugaredd.

On d cyfeillion gefais i mewn amryw ohonynt hwy, wrth eu bodd yn fy helpu o fan i fan. On d parai agwedd yr athrawon beth annifyrwech imi. 'Chawn i ddim mynd gyda'r plant i'r iard ar gyfnodau'r chwarae, ddim hyd i'r lle chwech, a mympwy'r athrawes a benderfynai pa amser y cawn i fynd wedyn. Bu'n rhaid i mi wingo y tu ol i'r ddeeg lawer gwaith wrth geisio atal y lliffdorau, a chofiaf imi unwaith ddioddef gair yn llawn gwawd gan yr athrawes oherwydd y gwingo. Un Gymraes oedd ^{AR} ~~ay~~ staff o dair ohonynt: mam a merch oedd y ddwy arall. Rhaid dweud am y brifathrawes, 'roedd ei dylanwad yn aruthrol ar y plant. Gwelais un ohonynt yn mynd oddiwrth ei deeg yn ei ddagrau, a hithau heb gyffwrdd ag ef, dim ^{GWD} ~~on~~ siared.

Gwelais y ganseu yn cael ei chwipio ar law plentyn mewn ysgol arall

ac yntau yn gwenu'n slei wrth gefnu ar y prifathro. Effaith dwy bersonoliaeth hollol wahanol ar blant.

Ni ~~chofiad~~ ^{CHOFIAD} ddim Cymraeg gael ei ddysgu o gwbl yn y dosbarth yr oeddwn i ynddo, er ei fod ar restr y testunau, a marciau yn cael eu rhoi amdano ar ddiwedd y term.

~~=Rwyf=bron=yn=siwr=na=chawsom=ni=ddim=gwers=mewn=Cymraeg=na=waith=tra=bun=i=m=nao=~~
Sut y gallai dwy Saesnes uniaith asesu'n gallu yn y Gymraeg sy'n ~~ddirgelwch~~ ^{DDIRGELWCH} pur.

A chofia'r bod hyn yn digwydd yn y tri degau mewn ardal Gymreig, ~~ac h yn parhau~~
~~felly heddiw~~. Mae adroddiadau'r ysgol gennyf o hyd, a gwelaf mai rywle o'r canol i'r pedwerydd y byddai fy safle yn y dosbarth. 'Fu ymdrech mam i'm cael yno ddim yn llwyr ofer.

~~Felly y treuliais i, a mwynhau=hefyd, y cyfno~~ Er hynny, gadawodd gweithgarwch amrywiol y capel fwy o'i ol arnaf, 'Ewyn meddwl. Aem i'w wahanol gyfarfodydd yn gyson, yn cynnwys y seiat noson waith. Efallai i honno wneud mwy o niwed nag o les imi, oherwydd tuedd y gweinidog i organmol fy nawn ^{1/2} ~~troi~~, pwyslais ar ryw air neu gymal mewn adnod neu bennill; y ddawn adrodd yn amlgu ei hun y seiat. Ond ~~mi~~ ^{XX} elwais i a llawer o blant ar y dosbarth ^{XX} ~~a ysgol~~ ^{XX} elfennau'r solfa a gynhelid cyn yr Ysgol Sul gan flaenor oedd a chanu yn mer ei esgyrn. Dim ond fyddai'n digwydd yn y Band of Hope cyd-enwadol ar Nos Lun, oherwydd mai dan ei law ef y byddai'r cyfarfodydd. Ond yn y dosbarth fe'n paratoid ni ar gyfer arholiad a drefnid gan y mudiad a ymgyrchai dros ddysgu miwsig drwy gyfrwng y solfa. 'Roedd yna dri arholiad yn y cwrs a llwyddais i a saith neu wyth arall i fynd drwy'r cyntaf yn o rwydd dan gyfarwyddyd Evan Roberts. Dechreuais yn frwd ar ~~XX~~ gyfer yr ail, ond erbyn dydd penodedig yr arholiad, dychwedaswn i fyw i Eglwysbach. ac yn anabl i'w sefyll, er fy ngofid. Dysgodd ef elfennau cerddoriaeth i ugeiniau o blant y Betws heb unrhyw dal, am wn i. Mawr yw ein dyled i'w lafur cariad. Dreifio rolar stem af y ffordd oedd ei waith beunyddiol, ond cerddoriaeth oedd ei fyd.

Felly y treuliais i, a mwynhau, y cyfnod gweddol fyr hwnnw ym Metws yn Rhos.

(26)

Cyfnod a fu'n heulwen i mi, ond yn llawn cymylau yn gordoi awyr ei dyfodol i mam. Baich dyleffion ar ei hysgwyddau; gorfod chwilio am dy, a chwilio am wa⁶waith wedyn, a gorfod gwneud hynny a hogyn ganddi ag angen mwy o dendans arno^h ag arfer hyd yn oed gyda phlant. Dyfodol go dywyll, a hithau a'u ffydd mewn pobl wedi cael ei, ddymchwel yn ddi-adfer.

PENNOD 864

Safai'r ty unllawr, unlllofft a fu'n gartref i ni'n dau am y chwe mlynedd nesaf
ar fin y ffordd, ac ar lan afon, yn y pen arall i'r pentre; afon a fuasai unwaith
ynk troi olwyn ddwr mewn ffatri wlan nyw ganrif a hanner yn ol.. Roedd yr adeilad
a fu'n cynnwys y peiriannau ynglyn a'r gwaith ar ei draed o hyd ac yn gysylltiedig
a'r ty, oedd yn fwy diweddar. Dim ond yr adeilad oedd yn weddill ar ol yprysurdeb
a fu, ond troes yn un cyfleus iawn i gadw iei'r, yn enwedig gan fod yno ddarn
gweddol helaeth o dir yn ymestyn ~~to~~ ~~iiii~~ ~~umnnnnn~~
yn ~~rbxxxxxxxxxxxxtttttxxxxxxxxxxxxxxxxxxxx~~ cccccvvvvvvvvbbbbbbbbbbbbbbbbbbbbbbbbbb
ttyyjjjjjjjjkjjhhhhuuuu

PENNOD 4

Safai'r ty unllawr, unloffft, fu'n gartref i ni'n dau am tua
 chwe mlynedd, ar osgo, ag un gornel iddo yn fin-fin a'r ffordd, ryw
 ysbaid o hanner awr o waith cerdded ato o'r llan i gyfeiriad y
 bryniau, Ty wedi ei godi'n syth yn erbyn mur o ddaear lleith, a ai
 yn uwch fyth wrth ymbellhau y tacefn iddo; yr olygfa o ffenestr ym
 llwyr wahanol i'r un a geid o'r Henryd. Y gornel yn agos, agos;
 dim ond rhyw ddau neu dri chae, twr o goed, a rhimyn bach o'r
 ffordd i gyfeiriad Eglwysbach yn llinynnu heibio iddynt, a'r ffurf-
 afen wedyn yn rhopi terfyn ar bob golygfa. Hyd yn oed wedi i chwi
 ddringo yn nes i blasty'n Pennant, dim ond cip ar arfordir Conwy
 a Llandudno oedd yn bosibl.

Yn union o flaen ein cartref newydd llifai afonig o dan bont
 fechan i'n hochr ni i'r ffordd, afonig a fu'n gyfrwng bywoliaeth
 i berthnasau inni rhyw ganrif neu fwy ynghynt. Ffatri wlan oedd hi
 y pryd hwnnw, gydag olwyn ddwr yn gyrru'r peiriannau. Dim ond yr
 adeilad oedd wedi goroesi pan ddaethom ni yno, a golwg digon ar
 ei furiau cerrig gwyngalchog, ag un talcen yncyffwrdd y ty.
 Ymestynnai rhimyn gwestad o dir oddiwrtho a chodiad bron yn
 union syth, yn ei gysgodi. Tyfai nifer go dda o ~~o~~ cyrens duon a
 gwsberia aeno, a byddai eu ffrwyth yn help i chwyddo ~~XX~~ Hebnillion
 prin. fy mam. Profodd yr adeilad a'r darn tir yn llefydd cyfleus i
 gadw ieir, y cyntaf yn rhoi cysgod iddynt, a'r ail yn libart.
 Ond amhosibl oedd sierhau bywoliaeth ohonynt ~~hwy~~, ac felly, bu
 gorfod arni fynd allan i weithio, a mynd yn rhyw fath o forwyn:

clwyf go fawr i un a fu'n feistres unwaith. Gweithio i un neu ddau yr oedd arni
ddyled iddynt. Gorfod mynd ar y plwy, ychydig ^{o'n} i'r drefn ddifriol honno roddi
lle i un fwy cydnaws. Ac er bod y ffactri cyn belled o'r ysgol ag oedd yr Henryd
gynt, ni ddoi'r ysgolfeistr i'm nol yn mwyach. ^{lle fawr} Al am nad oedd cais gwraig ar y
plwy i'w gymharu ag un y trethdalwr? 'Wn i ddim. Beth bynnag, mam a'm hebryngai yho
i fynwac i lawr elltydd yn swp trwm deuddeg oed. Fy ngadael yno i fynd i'w gath
yn un o dai'r pentre; dod yn ol i'r ysgol drachefn i'm gwthio adref, filltir a
a mwy o ffordd, ~~weddi~~ wedi blino'n lan. Byddai'n hwyr yn cyrhaedd weithiau,
wedi ei chadw'n ol gan brysurdeb, ac unwaith, ffeindiodd fi yn fy nagrau, ryw awr a
hanner arol i'r ysgol gau, yn methu dîrnad pam 'roedd hi mor hir yn dod. Yn ofni
amdani, ond nid heb achos yn hollol, oherwyddni bu'n hir cyn i'r straen amharu ar ei
hiechyd. Cafodd ymosodiad ysgafn o dwymyn y gwynegon ag chaethwyd hi i'w gwely
am ysbaidd. Un di gwyddiad a gofias o'r adeg honno: y gweinidog yn galw: mam yn
bur sal, mae'n rhaid; yntau'n dod i lawr o'r llofft ac yn dweud ^{SWR THY} ~~weddi~~ am
beidio'i phoeni, ^{WEKLA} ~~h~~ er mwyn rhoi cyfle iddi i ^{SIWR} ~~wella~~. Mae'n ~~swr~~ fod un o'm
modrybedd wedi dod atom i helpu drwy'r argyfwng. A Mrs. Williams, gwraig weddw
oedd yn byw dros y ffordd, un a'i chalon feddalwch yn gryffer ac yn wendid ynddi.
Ond yn rhyfedd iawn, 'chofias i ddim sut yn hollol daethom ni drwyddi, ond fe drodd
yr amgylchiad yn fendithiol yn ei ganlyniadau. Gwnaeth i amryw ohonom ^{GOFAL} ~~gofu~~ i geisi
ysgafnhau'r llwythoedd ar ei chefn. A c wrth ddyfal geisio, cael Mr. Idwal Wynn
Jones, y beirniad cerdd dant adnabyddus yn clywed am gadair y gallwn ei gyrru a
nerth bratch fy hun. Mynd i Lanrwst i'w threio, a'r capel yn ei phrynu efo arian
sbar y Cymundeb. 'Roedd hi'n hawdd ei thrafod ar le gwastad, ond profa'n broblem
go fawr ar y ~~XXXXXX~~ ^{XXXXXX} gelltydd. Nifer o bennau'n ~~ni~~ ⁿⁱ dod ynghyd unwaith eto, yn nhy
Miss Jones yr athrawes ~~XXX~~ yn ei chartref ac wrth y bwrdd te ryw bnawn Sul a'r
weledigaeth yn dod. Tybed a fyddai'n bosibl imi gerdded y tu ol i'r gadair. Na'i
gwthio felly, yn hytrach na'm bod yn eistedd ynddi a mam yn ~~gorfod~~ ^{gorfod} gwthio yn y

llefydd serth? ~~X~~haid oedd arbrofi ar y cyfle cyntaf i weld a ellid ei sylweddoli.

Ond nid hyfforddiant yng ngwaith ein dwylo yn unig a gaem, byddai raid i i rai ohonon fynd am hanner awr o ysgol yn ogystal. Yn nyth wedi cyrraedd yno caem, pawb ohonon, arholiad mewn rhifydddeg a saesneg. Rhyfeddod i Mî mi hyd heddiw yw sut y llwyddais yn arholiad rhifydddeg a methu yn y ^{saesneg} ~~saesneg~~. Ond dyna fu fy rhan, ac am gyfnod wedi hynny bum yn mynd i ddeubarthiadau mewn ^{saesneg} ~~saesneg~~ am dri diwrnod yn yr wythnos. Hanner awr fyddai hyd y wers a gwr or enw Major Angold oedd yn ein cymeryd ni. Digwyddodd rhywbeth diaderol iawn yn y deubarth hwnnw, sy'n dangos y gall anallu corfforol ^{dyn} ~~gymarwain~~ pobol ynghylch ei alluedd mewn gwirionedd.

-31-
penderfynnodd

Un tro yr athro brofi ein gallu i siarad yn gyhoeddus. Y tro cyntaf, rhoes bapur i bob un ohonom a dwud wrthym am ddweud gair ar destun a ysgrifennwyd arno. Aeth ~~XX~~ o un person i'r llall, chwech neu saith ohonom, am gadael i yn olaf, yn wir fy ngadael allan. Fe aeth yr hanner awr heibio heb i mi gael cyfle i ddweud dim ar y testun a gefais. Rhyw dro yn ddiweddarach fe wnaed yr un peth, rhoi testun inni, ar testun a gefais i y tro hwnnw oedd Newyddiaduron, a phan ai yr hogiau eraill drwy eu haraith hwy, cynlluniwn innau fy araith fechan fy hun. Aed e un i un y tro hwnnw ac ar fin fy ngadael i drachefn, ond y tro hwn 'doedd yr hanner awr ddim wedi ei drefnu yn hollol, ac ail feddyliodd yr athro a gofyn i mi a hoffwn i ddweud rhywbeth, a chefais fy nghyfle o'r diwedd. 'Roedd ymateb yr athro ar hogiau yn ddiddorol, a chefais hysbysu'r hogiau beth bynnag mai nid dyna'r tro cyntaf i mi siarad yn gyhoeddus. 'Roedd fy mwmblion arferol i wedi camarwain yr athro hwnnw, y bloesgni tafod a rwystred ^{yn} fwy na dim arall fy nghyfathrach bersonnol a chymaint o'm cyd ddyrnion.

Mâ na wnaeth fy arhosiad yn Exeter les imi yn y cyfeiriad hwnnw hefyd, os ystwythodd gwaith cyson y gweithdy gymalau fy nwyllaw, gwnaeth y rheidrwydd i gymysgu a phob math ohonom. ei ran hefyd i ystwytho rhagfarnau meddyliol a chrefyddol. Mynychwn wasanaethau crefyddol fel y gwnawn gartref. Cynhelid gwasanaethau yn y capel bach bob bore Sul, ond gwasanaeth esgobol ac ymneilltuol a gymerai le bob yn ail. Euthum i'r gwasanaeth esgobol pan yno'n gyntaf, ond methu'n lan a gwneud dim ohono a pheidiais ei fynychu. Lleiafrif oeddyn ni yr addolwyr yn y fan honne fel ymhobman arall, dim ond y fi ar y dechrau oedd yn mynd i'r gwasanaeth ymneilltuol. Arweinydd neu Weinidog yng ngofal cenhadaeth ystafell genhadol y ddinas oedd yn dod atom, un wedi symud o'r naill enwad i'r llall; Byddin yr Iachawdwriaeth yn gyntaf ac yna yn Weinidog gyda'r Bedyddwyr oedd "Skip" fel y mynnai ef i ni ei alw. I'r ystafell genhadol yr awn gyda'r nos ~~yn gyntaf~~, a deuthum i wybod fod

dau yn gyfrifol am y lle, dau gwahanol eu hoego grefyddol. Un yn Efenglydd Athraw-
iaethol a rhag^{fen}anillyd, braidd yn tueddu i ddirmygu pob seremoni eglwysig. Athrawiaeth
yr Efengyl, dyna'r pwyslais roddai ef yn ei brogethu, ond yr oedd "Skip" yn fwy
ymarferol, yn rhy ymarferol weithiau, byddai yn mynd allan o'i ffordd i geisio dod
i'r un byd a ni, baganiaid St. Lopes. Ond 'roedd ei oego yntau a'i ffydd yng
ngallu'r Efengyl i adfer dynion, mor gadarn ag eiddo ei frawd. Yn rhyfedd iawn fe
gynyddodd y gynulleidfa yn y capel bach fel y daliwn i fynd yno, ac fe barhaodd
yn weddol lwyddianus ar hyd fy amser er gwaetha'r mynd a dod oedd yn cymeryd lle.
Ond un tro fe gododd dadl yn ein hystafell gyagu- 'roedd hi'n ystafell fyw hefyd
gyda llaw. 'Roedd cyfaill o Anglican yn aros yn y gwely un ochr i mi a Gwyddel o
Babudd yn gorwedd yr ochr arall. Mae sylw y Gwyddel hwnnw yn fy nghof i byth, yn
enwedig wrth feddwl am y gweryla aydd yn Iwerddon heddiw. Medaylini ef yn gadarn
fod crefydd yn achosi mwy o gweryla na'r 'run pwn arall. Yn y ddaid y noson
honno rhois innau fy mhig i mewn dres oadefgarwch mewn crefydd. Bachodd fy nghyfaill
o Anglican ar fy nadleuon ac fe'm cornelodd i a chwestiwn. 'Roedd ef yn arfer dod
i'n gwasanaeth ni ond fyddwn i ddim yn mynychu y gwasanaeth Anglicanaidd a gofynnodd
imi pa ? Mi cheiliais roi ateb, addo wnes i y buaewn yn y gwasanaeth Anglicanaidd
y Sul wedyn; a chyflawnais fy addewid. Ac er na chawn gyfranogi o Swper yr Arglwydd,
fel y parhawn i fynd i lawr i werthfawrogi y gwasanaeth hwnnw fwyfwy. Dyna sut yr
ystwythodd hen ragfarnau. Rhyddhawyd peth ar fy swildod ynghanol yr hwyl dr miri
ar direidi ond ddim yn llwyr. Cymerwn fwy o ran yn y miri fel yr ai yr amser heibio.
Yn wir sylw un eneth oedd mod i'n edrych digyn llai difrifol nag oeddwn Hi i pan
outhum yno gyntaf.

Dyna engraifft arall o'r yndaro fyddai rhyngom a'n gilydd; 'roedd yr hogiau
yn cymeryd diadorddeb mawr mewn chwarsuon o bob math ac yn cefnogi pel droed a rygbit.
'Roedd Cymro di Gynraeg yn y gwely agosaf ataf oedd yn gefnogwr pybyr dros Gymru

yn y maes rygbi. Digwyddai fod gem yn cael ei chwarae y Sadwrn dilynol a chyfaill o 'Chipping Sudbury' yn taeru mai Iwerddon a ennillai, ond aeth fy nghyfaill o wallt coch yn danllyd wyllt o blaid Cymru, a thaerai mae Cymru a ennillai ac apeliodd ar fy nghefnogaeth i i'r ddadl, ond cafodd sioe ei fywyd pan ddywedais i wrthynt nad oeddwn yn malio pwy a enillai. 'Roeddwn i wedi mynd yn fraedwr rhone yng ngolwg y Cymro di Gymraeg. Ond yr oedd dau fath o Genedlaetholdeb Gymreig yn yr ystafell honno y diwrnod hwnnw, un oedd yn arddel y Gymraeg ar llall yn arddel chwarae mwyaf poblogaidd Cymru. Fe welais un gem rygbi yno ond dyna'r cyfan, dyna faint fy niddordeb i mewn chwarae o unrhyw fath yr adeg honno.

Bu dau ddigwyddiad anffodus imi yn ystod fy arhosiad yn St. Lloyes, oni bai amdanynt buaswn wedi cael dod adre o leiaf mis ^{hys} ~~ym~~ nghynt. Pythefnos cyn y Nadolig y digwyddodd y cyntaf; direidi cyfaill a'i hachosodd. Wrth fynd o'n gwaith a minnau yn fy nghadair olwyn, penderfynnodd fy nghyfaill gael reid gyda mi yn y gadair er mor gyffwrdd oedd hi. I lawr goriwaered tua'n hystafell gysgu, methais gael gafael ar y brec gyda'r canlyniaid i'r gadair a'i llwyth droi trosodd ar y tarmas. Rhyw ddau neu dri briw er hynny a achosodd y godwn ar fy nigyrnau, ⁿⁱ ~~ni~~ chymeryd fawr sylw ohonynt gan fod un arall wedi cael codwm a brifo'n waeth na mi, chymerais innau mor sylw ohonynt am wythnos hyd nes i dwymun fy ngorfodi i'm gwely. Iâ i'r 'Sick Bay' bu raid imi fynd yn y diwedd, a gwres y corff fel 'yo-yo' uwchlaw ac islaw y gwres arferol, a phoen yn cynyddu dan fy nghesail. 'Roedd yn arteithiol pan symudai rhywyn fi o'r gwely, ond bu raidi myrs o adran y merched ddod i fynw cyn i neb gymeryd sylw o'm cwyn, a darganfod fod y gwenwyn wedi casglu'n lwmplllog o dan fy nghesail. Aeth dyddiau heibio cyn i'r meddyg ddod, a phenderfynnu f'anfon yn syth i'r ysbyty i gael triniaeth law feddygol iddo. Unig iawn oedd y Nadolig hwnnw i mi, dri chan milltir oddi cartref heb i Mam wybod dim am y peth nes y daethum yn ddigon da i fedru ysgrifennu gartref, fel y gwnawn yn gyson. Mi chafodd Mam wybod gan y Coleg chwaith ac aeth i bryderu cymaint yn fy nghylch

nes iddi benderfynnu dod yr holl ffordd i lawr i'm gweld. Fy llythyr i a'i hataliodd mewn pryd. Wedi dychwelyd i'r Coleg o'r ysbyty bu raid imi adechrau gweithio cyn hanner gwella, oherwydd fod yna reol ryfedd oedd yn terfynnu cwrs y neb a fethai fynd i'w waith o fewn tair wythnos; ar unig ffordd i osgoi y dynged honno oedd fy mhresenoli fy hun yn y gweithdy. Bu cryn holi a stillie ynghylch yr ~~amgylchiad~~ a synhwyraf fod rhywrai wedi bod yn bur esgeulus ohonof. Fe'm habryngwyd i adref am ychydig ddyddiau cyn dychwelyd drachefn i ail afael yn y swrs.

Mi bum yn hir cyn i ddamwain arall fy ngoddiweddd : cael codwm a barodd imi dorri pont fy ysgwydd dde. 'Rwyf bron yn sicr mai cyflwr y meddwl ac nid ~~methiant~~ methiant corfforel a'i hachosodd. Soniais eisioes am y swildod a fyddai'n l llethol pan ddown wyneb yn wyneb a'r rhyw deg ac 'roedd gofyn i rai ohonynt ddod gyda mi am dro fel un yn ceisio dringo dros fur uchel. 'Doedd gwybod fy mod yn fethedig yn helpu o gwbl, ond 'roedd rhyw atalfa feddyliol oedd yn ddyfnach na hynny yn fy rhwystre. Fodd bynnag, yng nghymdeithas gymysg a ffri y gweithdy fe laciwyd peth ar fy rhwystredigaeth. Fe ddaeth merch ifane i'r gweithdy am gyfnod a gawsai drawiad ysgafn o'r parlys, ond a newidiai ei chariadon bron cyn amled a newidiai ei chot. Gwyddwn fod rhywbeth rhyngddi hi a Bernard, y cyfaill a achosodd fy namwain gyntaf, ond derbyniais wahoddiad y ddau i fynd gyda hwy i'r pictiwrws un noswaith. Synhwyrais y noson honno fod yn rhaid i mi fod yn ofalus, ond ~~rhwyfodd~~ rhwyfodd fe'm cefais fy hun yn adde myhd a hi ^{allan} fy hunan allan. Ceisio dod o'i gafaelion hi oedd fy mhroblem i bellach, ac yn rhy llwfr i wrthod. Bu'm yn poeini ac yn deisyfu a bron yn gweddio am ryw ffordd allan, ac fe atebwyd fy ngwedd i y dydd Sadwrn cyn y noson dyngedfennol. Euthum allan am dro yn fy ngherbyd medur tri olwyn, a dod yn ol at ddwrws yr ystafell ~~gyagu~~ gyagu, ac wrth geisio dod allan o'r cerbyd fe syrthiais mewn ffordd hollol waharol, syrthio i'r dde yn lle i'r chwith a thorri pont fy ysgwydd-

atebiad go chwyrn i weddi lloeffryn, ond X 'roedd gennyf eagus, yn hytrach
reswm dros fethu cadw fy nghocddiad. Bu'n rhaid imi fynd i'r ystyng drachefn
am archwiliad meddygel ond cefais ddod yn fy ol yn cyth a chael mynd i'r
gweithdy er na allwn wneud fawr o waith yno. Ni chafodd Mam wybod am y ddamwain
hon, 'roedd hi wedi pryderu digon am y gyntaf heb ychwanegu am y ato.

Eithr daeth fy nhro innau i bryderu. Cefais wyliau eto yn ystod wythnos
y Pasg, euthum yn ol drachefn a Mam yn fy hebrwng at y tren. Wedi iddi fy
ngadael, aeth at gyfnithwr iddi i fwrw ei hunigrwyd mae'n debyg, ac yno fe gafodd
ymosodiad sydyn ond ysgafn o'r parlys. 'Ddyddod hi ddim wrthyf am y peth, dim
ond dweud ei bod wedi cael amwyd go drwm. Bu'm am ddyddiau yn disgwyl ^u hi am
lythyr ganddi ac achosodd hynny beth pryder. Ond yr oedd rhyw amfyrwrch dyfnach
ynof drwy'r amser a dreuliais yn weddill yno. Teinlwn ym mer fy esgyrn fod
rhywbeth gwaeth nac amwyd yn bod arni. Cefais i ddim gwybod am y peth nes dod
adref, ond mae'n ddirgelwch i mi beth oedd y peth dirgel hwnnw a'm gwneai mor
^{amfyrwr}
~~amfyr~~ ac ansicr, a'i rhyw fath o delepathi ydoedd yn gallu llannu dros dri chan
militir rhwng Mam a'i mab, y mab y pryderai hi gymaint ardane.

PENNOD 8

Bur flwyddyn a dreuliais yn Exeter i mi megis gwerddon yng nghanol anialwch ar ol bod yn chwilio ar ol pedair blynedd o ddiffeithdra heb waith eysen. Profi'r wefr o fedru codi yn y bore, ymolchi, gwisgo fy hunan heb gynorthwy, ar wahan i ~~un~~ roi coler a thei ac esgidiau, brecwesta ac yna mynd i'r gwaith bob dydd a chael cyflog wythnosol o ddeg swllt ar hugain, a phunt ohono yn mynd i Mam, a'r teimlad o fod yn berson normal cyfrifol yn dilyn yn naturiol. Os oedd anhwylder arbennig pob myfyriwr a'r ffeiliau'r coleg, fe'i hanwybyddid yn helaeth iawn yn ei weithgarwch arferol. Dyna oedd ei ogoniant, dyna hefyd oedd ei beryglon oherwydd rhaid oedd i ni symud o'r ddiogelwch a'i naturioldeb i ganol y diffaethwch oedd y tu allan, yn y byd mawr a edrychai arnom ac oedd yn ein labelu fel pobl methedig ac yn ein stigmatiddio yn rhai arwahan iddynt hwy, bobl normal. Ni chaem ein rhybuddio rhag y newid hwn o gwbl fel paratoad ar ei gyfer ac am ei beryglon seicolegol. Taflwyd fi ar fy adnoddau fy hun heb sylweddoli ei anawsterau a'i broblemau.

Daethum o'r coleg a ser yn fy llygaid. Gallwn wneud rhywbeth, gallwn weithio ac fe gefais swydd gan gwmni Remploy er mai drwy Swyddfa Llafur y cefais i hi. Fy ngorchwyl i wrth gwrs oedd prynu'r dafedd a hefyd ffeindio'r cwsmeriaid, ond 'roedd hynny'n ddechrau a welwn i ddim problem wrth gychwyn ar y fenter, ond yn fuan iawn fe gododd un. 'Roedd ynrhaid cael rhywyn i'm helpu i osod y dafedd ar y peiriant cyn y medrwn i ddechrau ar y gwaith o nyddu, ni allai'r mwyaf abl ei wneuthr ei hunan heb gynorthwy. Fe ddaeth gwraig o'r W.V.S. un tro i wneud hynny ond go anobeithiol oedd ei chais gan fod tyndra y dafedd mor anwastad, ac o'r herwydd yn amhosibl ei weithio. Bu raid i Mam gymeryd at y gwaith a hithau erbyn hyn mewn oed dros ei deg a thrugain, ac nid bychan o gamp oedd cyflawni y fath orchwyl anghyfarwydd i

un o'i hoed hi yn enwedig wrth ystyried fy mod i mor flin a diamynedd yn cyd weithio a hi. Fe lwyddodd yn rhyfeddol a buom yn cynhyrchu aml i gadach gwddf a gorchudd clusteg yn ol gofynion y cwsmeriaid, Fel y llithrai^h blyneddodd prinhan^{u nall} oedd y cwsmeriaid ac wedi'r holl drafferth bychan iawn oedd yr elw a ennillwn.

Ond fe'm cythrusddwyd gan un digwyddiad arbennig. Clywais gan Swyddogion fy eglwys fod^y Swyddfa Lafur wedi bod mewn cysylltiad a hwy^{ac}, yn gofyn iddynt brynnu'r peiriant ryddu. Methwn a deall pam, a minnau dan yr argraff mai'r Swyddfa Lafur oedd pia^hi. Teimlwn nad oedd hyn ond yn taflu'r cyfrifoldeb ar ryw^a arall a gwaherddais i'r eglwys wneud dim byd a'r peth. Ysgrifennais lythyr iddynt yng Nghonwy yn datgan fy anfedlonrwydd llwyr o'r hyn a wnaethant. A chan nad oeddwn am i neb deimlo fy mod yn faich arnynt cynigais brynu'r peiriant fy hun. Mi chlybum ddim nes cael llythyr gan gwmni Remploy y tro hwn a bil gydag ef^{dm} o ryw ddirpant neu bedair, telais ef yn ddiced. Nes ymlaen cefais wys y tro hwn i'r Swyddfa Lafur ac yno darganfum na wyddent hwy ddim oll am yr archeb a gefais, na fy mod wedi 'i dalu. Yn naturiol^{broed}, fod y goruchwyliwr o'i go yn lan wrth sylweddoli fod y cwmni wedi gweithredu y tu cefn iddynt. Wn i ddim eto beth oedd bwriad y Swyddfa Lafur, ond mae'n amlwg fod fy ngwithred i wedi drysu eu cynllun. Ond 'roedd mwy nae un dirgelwch o gwmnas y busnes, mae'n amlwg; pam 'roedd ar y cwmni eisiau gwerthu y peiriant, pam oedd ar y Swyddfa Lafur eisiau i'r capel^{ef} i'w brynnu, pam y gweithredodd y cwmni heb ymgynghori a hwy.

A minnau fel deryn gwyddbyll yng nghanel y cwbl. Beth bynnag am hynny cillodd y ser o'm llygaid wrth wynebu yr anawsterau a'r problemau a'r dryniaeth olaf hon a chynylodd yr wybren gan sion a dadrith. Yn raddol daeth hunan dosturi i erydu fy mhersonoliaeth.

Yn raddol daeth digwyddiadau eraill i bwysleisio'r tueddiadau hyn yn fy meddwl. Gyda i mi ddael adref yr oedd corau yn dechrau ymarfer yn mhentrefi Dyffryn Conwy ar gyfer /Eisteddfod Cenedlaethol Llanrwst a gynhelid y flwyddyn ddilynol, ac ymunais a'r adran a yngynullid yn y pentref. Ceisiwn ymuno a phopeth oedd yn digwydd yn mywyd pentref a rhan o'r ymdrech honno oedd ymuno a'r cor. 'Roedd popeth yn eithaf hwylus pan ymarferai'r cor yn y pentref ei hun a minnau ^{yn} ~~er fy meddwl~~ gallu symud hefo dwy ffon, eto fe asth yn drech arnaf wrth eu dilyn i'r ~~rhannau~~ 'rehestrnais' yn Llanrwst. Dal i ymdrechau a wnes i er hynny hyd nes daeth yr adeg i fynd ar lwyfan y pafiliwn ei hun. Dechreuais deimlo y gwahaniaeth a wnaï pobl rhyng- of fi a chyd aelodau eraill o'r cor. Sgwrsio a'i gilydd am gadael i arwahan. Awn i deimlo'r peth fwyfwy, a phoenwn ynghylch y broblemau o fynd ar y lwyfan yn gymaint felly nes penderfynnu ~~chwy~~ ymddiswyddo fel aelod o'r cor. Ehan o gyflwr cyffredinol y meddwl oedd y digwyddiad hwnnw hefyd. 'Roedd cynylau fy sioc a'm dadrith yn bygwth gordoi fy wybren i gyd.

'Doeddwn i edim yn rhy hen i ymuno a chyfarfodydd y bobl ifaine yn y capel chwaith. Cyfarfodydd gwych oeddynt hwy y pryd hwnnw, 'roedd nifer o bobl ifaine difeddwl a didorreth yn awl yn cyfarfed, a byddai'r gweinidog y Parch D.W.Davies yng nghanel sesiynau o chwarae a hwyl yn synnu oael ryw hanner awr i drafod rhyw lyfr neu'i gilydd. Llyfr unwaith neu ddwy fyddai'r testun astudiaeth mewn colegau, a neb ohonon bron yn sylweddoli hynny. 'Roedd y gweinidog yn athro wrth reddf a gallai falu cynnwys y llyfr yn damodidau digon syml i'r dylaf ohonon ei ddeall. Mae'n rhaid i'r rheini gael dylanwad, oblegid daeth amryw o'r bobl ifaine yn aelodau ffyddalon ac yn arweidwyr mewn gwahanol eglwysi.

Pob Nadolig ffurfiam gor ac aem o gwmpas yr ardal i gamu carolau at achosion da. Awn innau yn fy ngherbyd modur gyda hwy neu weithiau yn un o'u ceir i leocedd anhygyrch. Rhan o fy ymdrech i oedd hyn oll i gymysgu cymaint ag y gallwn a hwy. Mi ddarfu heb fy rhwystro a heb fy wahoda chwaith: ~~MIEN~~ distawrwydd niwtral mae'n debyg yw'r disgrifiad gorau o'u hymateb. Bu un digwyddiad doniol achosodd lawer o dynnu coes wedi hynny. Cawn fwyd a diod yn y cartrefi y galwen ynynt, ac mewn un lle arbennig cynnigwyd diod inni oedd ychydig bach yn gryfach na the. 'Doeddwn ddim yn rhy siwr o'i wir natur, ac yr oeddwn i fel llwyr ymwrthodwr mewn ychydig benbleth. Yr oedd llwyr ymwrthod yn grefydd i Mam a phe clywsai fy mod yn mynychu tafarnau fe dorrai ei chalon. Fodd bynnag mentro yfed y ddiod arbennig yna a wneuthum a theimlwn fy hunan yn cynhesu trwedd. Ac allan a ni i'r awyr oer ac i'r lle nesaf ar ein taith. Gyda'r inni fynd drwy'r glwyd cefais godw fel brechdan ar lawr. 'Doedd dim angen y prawf yfed y tre hwnnw.

Ona er yr holl ymdrech a wnawn i gymdeithasu a'm cyfoedion ar fy mhen fy hun y byddwn i yn anlach na pheiddio. Tyrrent hwy at eu gilydd ar ~~ff~~ lwyfan y festri a'm gadael yn eistedd ar y sedd yng nghanel yr ystafell. Dechreuodd y peth fynd yn fwrn ar fy ysbryd a bu bron imi roi gorau i fynd yno. Cofiaf un noson yn arbennig, teimlwn fy unigrwydd yn y festri gymaint nes imi benderfynnu dod adref ar ganol y cyfarfod. Euthum allan drwy ddwrws y festri a chychwyn am gartref, ond arhosais o fewn ychydig latheni. Atelid fi gan ryw lais rhybuddiol oddi mewn; os awn adref y noson honno, byddai'n filwaith anoddach i mi fynychu unrhyw gyfarfod wedyn. Diolch i'r drefn fe ufuddheais i'r llais y tre hwnnw a dychwelais i'r festri i wynebu'n eofn, yr unigrwydd. Dychwelais heb i neb wybod fy mod wedi gadael o gwbl.

Ond yr oedd storm yn crynhoi, y storm waethaf a ddaeth arnaf cynt na chwedyn. 'Roeddwn i fel pe bawn ar fy mhrawf mewn llys barn a'r erlynydd wedi casglu ffeithiau gorffennol fy mywyd yn un pentwr yn fy erbyn a rheini yn ddiwrthdro, Gobeithien yn troi yn sarn, Castell fy uchelgais yn chwalu'n deillion e'm cwmpas, fy ymdrechion i fod e ryw fudd a gwasanaeth i'm cyd ddynion yn troi'n lludw llwyd ar aelwyd fy mywyd, fel pe bai pob gweithgarwch e'm heide yn troi'n fethiant llwyr ac ofer, 'roedd popeth yn fy erbyn. Credwn hynny, ac effeithiai ar ysbryd a chorff - awn i fethu cerdded, methwn ddringo i'r llefft, ~~hydynod~~ ddisgyn y ris i'r ffordd o'r ty. ~~WIK~~ Wrth bensynnu i'r tan 'roeddwn i wedi ymresymu fy hunan hyd at fur ddiadlem anobaith. Aethai bywyd yn ddibwrpas e dan bwysau diwrthdro ffeithiau noeth.

Ac yr oedd Mam hefyd yn broblem i mi. Aethai'r graith a ddigwyddodd deng mlynedd ar hugain yn ol i ddechrau casglu yn wenywn yn ei hysbryd hi - thau, collasai pob ymddiriedaeth yn ei chyd ddynion. Mi allai aderbryn eu caredigrwydd. Ei hymateb i gymwynasau lu ar ran cymdogion a ffrindiau oedd dychwelyd eu rhoddion ac nid unwaith na dwywaith y digwyddodd hynny. Mi sylweddolai hi fod ei gweithred yn sarhau ac yn brifo teimladau gorau pobl. Fel y llithrai'r blynyddoedd dyfnhai'r anheuaeth; ac aeth i ddychmygu fod pobl yn ei gwneud hi yn darged i'w malais. At hynny ~~WIK~~ 'roedd ei chof yn pallu gan henaint, ni chofiai yn lle y gadawsai fan bethau e gwmpas y ty. O fethu a'i ffeindio ai i gredu fod rhyw yn eu cymryd ymaith. Wrth feddwl amdani, gymaint a aberthodd ac a wnaeth ar fy rhan i drwy'r blynyddoedd, ~~methwn yn fan a deallu yn obsesgwahan~~ Dysgodd hi egwyddorion crefydd i mi, y gwahaniaeth rhwng da a drwg, a'r union beth hwnnw a ^{an's} ~~greff~~ anghytundeb dwfn rhyngom. Ymresymwn, dadleuwn, pleidiwn a hi, ond yn ofer. Mid oedd ganddi ateb iddynt, dim ond glynmu'n

styfnig a phenderfynol yn ei chred. Ac i wneud pethau'n waeth fe wylltiwn innau. Buaswn yn rhoi byd am fod yn ddigon abl i fedru chweta am y pethau aent ar ddisbered y dyddiau hynny ac y gallaswn wedi arbed y tre ofnadwy hwnnw am gyrrodd bron yn walltgoft. Daeth i'r ty ryw brynhawn a chynwrf yn ei llygaid; cyhuddasai ei chymydog o fynd ag oriawr a chlo'r drws ymaith. Dywedodd wrthyf ^{he}ddim o flaen llaw am ei hamheuaeth, dywedais wrthi yn fy ngwylltineb nad oedd ganddi ddim prawf o gwbl dros ei chyhuddiad. Ing nghanol fy mhenbleth ofnadwy aethum at y cymydog fy hunain i siarad ond mae gennyf ofn mai gwneud pethau'n waeth a wneuthum wrth ddelio a'r fath argyfwng a minnau mor las ddibrefiad. Dychwelais i'r ty a'm henaid yn ddeuddarn, ar un llaw 'roedd teyrngarwch naturiol mab i'w fam ac ar y llaw arall yr oedd ffyddlondeb i ffeithiau. Sylweddolwn yn ingol ganlyniadau y fath weithred a ^{allwedd}~~roedd~~ gyfraith yn athrod ar gosb a allai ddod yn ei sgil. 'Roedd gwallgofrwydd ddim ymhell oddiwrthyf y dyddiau hynny. Awn allan gyda'm cerbyd tri olwyn ^{deb} yn hollol siwr a ddown yn ei ~~XXXXXX~~ a'i peidio. Teimlwn fod llygad cyhuddol yn edrych arnom ar bob llaw. pan geisiais heddychu rhwng y ddau, dyna ddywedodd y cymydog wrthyf i bob purpas. Gallwn ddiodef y ffaith fy mod yn fethedig ond 'roedd y peth aflan hwn y tu hwnt i ddiodef bron. Mi fargeiniais erboed am gael fy ystyried megis troseddwr. Ynndiweddach fe ddaeth llythyr cyfreithwr i Mam yn rhybudd os digwyddai y fath beth eto, y byddai yn nwylo y gyfraith. Ond yn ffodus 'roedd pobl yn fwy trugareg nac y tybiai hi. Clywais wedyn i un eiriol ar ei rhan wrth ei chymydog a dweud " Peidiwch a bod yn galed arni".

Dyna'r cyflwr y bum i ynddo am gyfnod, a sion a hunan desturi a gofid ac anghytundeb yn y cartref yn gymdeithion uffernol imi. Effeithiodd ar fy ngherdded, methwn fynd i fynyr grisiau fy hunan heb gynorthwy tra medrwn gynt. 'Roedd disgyn y grisiau i'r ffordd hefyd yn ormod o dasg. 'Roedd egni fy holl

personoliaeth yn cael ei sugno gamdynt.

Chwiliwn am ryw reswm o rywle rywfodd am ei hymddygiad. Digwyddais weld fod 'Stalin' pennaeth Rwsia wedi cael ymosodiad o'r parlys ac mai dyna'r rhoswm am ei amheuaeth ef ac am y lladd a fu ar ei feddygon, a theimlwn fel cymhwys yr un eglurhad yn achos Mam. Ac eto ar waetha'r cwbl 'roedd rhyw islais yn rhybuddio. Mae'n wir ei bod yn wir anodd gennyf fynd i'r capel a pheidiais a'r arfer o gadw dyletswydd gartref gan y teimlwn nad oedd y cyfan ddim ond rhagrith noeth. In ~~XX~~ ^{XX} erbyn fy ewylllys yr awn i'r oedfa a seiat. Ac felly y digwyddodd hi un noson. Aethai Mam yno o'm blaen a minnau yn rhyw lusgo ar ei hol bron, bron a gwrthod mynd. Fodd bynnag ager drws y festri a wnaethum a chlywed llais y pen blaenor John Davies yn dechrau'r gwasanaeth ac yn ledio'r Emyn. Beth ar y dddear ond rhagluniaeth a barodd iddo ledio Emyn Elfed :

1. Enaid gwan, pahan yr ofni?

Cariad yw

Meddwl Duw;

Cofiai holl ddaioni.

2. Pam yr ofni'r cwmwl weithian?

Mae Efe

Yn ei le

Yn rheoli'r cyfan.

3. Os yw'n gwisgo y blodeuyn,

Wywa'n llwyr /

Gyda'r hwyf

Oni chofia'i blentyn?

4. Duw a wyr dy holl bryderon,

Agos yw

Dynol - ryw

Bunydd at ei galon.

Teimlwn fel pe bawn wedi cael oelpan ar draws fy ~~sgwyneb~~. Emyn a
h
holltodd i'm enaid fel mellten yn hollti drwy'r cynylau. Mi ~~bua~~ ^u pethau byth
'run fath wedyn. Collodd fy hunan dosturi ei rym arnaf. Mi heriaf unrhyw
angrhebadyn i ymresymu'r peth fel cyd - ddigwyddiad noeth. Un Emyn allan o
dri chant o Emynau arferir eu canu fel rheol a'r un hwnnw yn ateb cwbl ~~araf~~ ^{gallaf}
i'm cyflwr. Sut y gellir ei esbonio arwahan i ryw arfaeth oedd yn gweithio
allan waredigaeth. ^{mi} Dechreuais o hyn allan ^{gredaf} ~~gredaf~~ fod mwy o'm plaid nag oedd
i'm herbyn ar waethaf ffeithiau oer a chreulon bywyd i gyd. Gwelais fod i
grefydd ddrysau dihangfa na wyr yr ymresymwr cadarnaf ddim oll amdanynt.
Dechrau'r newid a wnaeth ^f profiad y noson honno. Mi atebwyd y problemau ond
fe roes i mi ffordd newydd o edrych arnynt.

Fe ddigwyddodd hefyd fod son am y weinidogaeth iachau, ffasiwn a
ddaeth i fod ar y pryd. 'Roedd Doctor Gruffudd Evans Caernarfon wedi cychwyn
canolfan yn y dref honno o dan nawdd y Cyfundeb ac yr oedd y Gweinidog yn
frwd o'i blaid. Bu dau ohonon yn ei gwmi yn y ganolfan, ond ni chefais fawr
o fudd yno ond yr oedd yr agwedd meddwl wedi dylanwadu arnaf. Yn annibynol
a'r hyn i gyd daeth i'm llaw lyfr gan ryw wr o'r Amerig ar yr un testun.
Wrth gwrw fe fwm i flynyddoedd ynghynt o dan ddylanwad y ffydd arbennig
honno. Yr oedd y Pentecostiaid yn ei oholeddu fel un o bileri eu ffydd. Cafodd
hynny ei ddylanwad arnaf, helpiodd fi i feddwl yn gadarnhaol. Yn fy ystafell wely
X digwyddodd y profiad arall nas anghofiaf, pan ddaeth angen ystruan o adyn a

north Duw yn un. Gwefreiddiwyd fi y noson honno gan ryw drydan byw a bu bron imi a cherdded fy hunan. Yn nes ymlaen gallwn gerdded yn ol a blaen rhwng bwrdd a chwprdd heb gyffwrdd a hwy. Gellais fynd i'r capel ddeng munud o daith heb gymorth dim ond un ffon, a pharhaodd hynny am dair neu bedair blynedd. Mae gan y weinidogaeth iachau broblemau er enghraifft y ffaith bod rhai yn mynd yn ol i'w hen gyflwr fel y gwneuthum i ond nid wyf yn barod i gredu mae diffyg ffydd yw'r rheswm amdano. Beth bynnag nid oes ~~amheuaeth~~ amheuaeth nad oes iddi ei lle yng ngweinidogaeth yr Eglwys Grist ~~on~~ nogol. Dyna yw ffydd i mi megis aderyn yn cael ei wthio o ryth ei hunanoldeb a'i dafliu i'r gofod ac yn ffeindio ~~ei~~ fod ganddo adenydd sy'n ei alluogi i fyw mewn awyrgylch newydd sbon. Bu gan y bobl ifaine ychydig o ran yn yr ~~a~~ adferiad, bu awy nag un sesiwn o ymarfer corff ond y drwg oedd iddynt fynd i gredu mai dyna yn unig a gyfrifai amdano, sy'n dangos mor dueddol yw dynion i gymeryd clod am wyrthiau Duw. A dyna daigwyddodd fyth ar ol hynny. Trodd pethau allan yn anrhaethol well nag a ddychaygaiz ericed yn yr ugain mlynedd a'i dilynodd.

PENNOD 9

Bellaach, yr oedd cyfnod newydd wedi gwawrio arnaf. Cyfnod na fu heb ei argyfyngau a bellaach fe ddeuai adnoddau cudd i'r golwg i ddelio a hwy. Daeth profiadau newydd a phosibiliadau newydd a gwaith newydd i'm rhan. Fe wyddwn fod ~~ARGYFYNG~~ un argyfwng o leiaf o'm blaen nad oedd osgoi arni. Cefais ragflas ohonno cyn iddo ddod ar fy ngwarthaf saith mlynedd ynghynt. 'Roedd fy Mam yn heneiddio a thros ei phymtheg a thrugain. Cafodd fyw hyd nes oedd yn dair a phedwar ugain ond bu bron iddi a cholli'r dydd saith mlynedd ynghynt; fe tarawyd hi gan been ynei phen yn y ty. A'r meddyg yn ei chadw yn ei gwely am wythnos cyn cynnig ei hanfon i'r ysbytu. Yn wir bu raid i mi awgrymu'r peth iddo cyn iddo ei symud. Fe wyddwn i yn reddfod fod ~~cyda hi~~ rhywbeth ^{yn} gwaeth ^{on le gwr} nac anwyd fel yr awgrymai ef. Cefais brawf ar fy ngallu ^{wythnos} y noson honno. Gellais gyrru dwr o'r tap oddiallan fy hunan a gorchwylion man cyffelyb. Anghofiais i fyth ^{no} un achlysur pan benderfynais fynd a chwpanaid o de iddi i'r llofft. Gellais godi'r gwpan de o ris i ris a'i chael ar lawr y llofft a'i llithro yn dringar nes dod o fewn dim a'i chael i ddwyllo Mam ^{and} ~~ac~~ fe drodd drosodd cyn iddi gael gafael ynddi.

Beth bynnag aethpwyd a hi i'r ysbytu a dim ond mewn pryd oblegid y diwrnod dilynol 'roedd hi'n anymwybodol. Nos Fawrth dilynol cefais fy ngalw i'r ysbytu a gorfod teithio drwy eira Mis Mawrth a'r meddyg yn dweud, nid wrthyf fi wrth gers ond wrth y Gweinidog, nad oedd ganddi ond dau ddiwrnod i fyw. Fe fethodd y meddyg hwnnw ddyddiad ei marwolaeth o saith mlynedd. Fodd bynnag cefais gysgu y noson honno ac am ddeunos arall yn nhy'r Gweinidog, ond bu yn ddigon doeth i'm danfon gartref drwy'r eira mawr unwaith eto i weld a allwn i ymddopi ar ben fy hun. Yn ffodus yr oedd cynllun cymorth

cartref wedi dechrau lle doi gwraig i lanhau ac i wneud bwyd o dan nawdd y
Cyngor Sir. Parhaodd i ddod am dri mis ac fe lwyddais i aros yn y ty fy
hun drwy'r amser. Llwyddo i fynd i fynny ac i lawr y grisau heb i neb fy
helpu. Fe ddysgais wneud pethau na whelwn ericed o'r blaen: Cau fy esgidiau,
cefnais drafferth enbyd ar y cyntaf i roi coler a thei ond drwy ddyfal
barhan ~~di~~ ^{di} - i ddio fe lwyddais o'r diwedd. Dangosodd y tri mis hynny i
fwy nag un person y gallwn i ymdaro fy hunan pe deuai'r gwaethaf. A phan
ddaeth, yr oedd mudiad y Spastics wedi dod i Fae Colwyn a grwp o aelodau yno /
wedi cymeryd diddordeb ynof. Ond dim ond un ohonynt oedd yn fy adnabod yn
drwyadl ac y mae arnaf ddyled anfesurrol iddo ef. Bachgen o'r pentref oedd
John. Adnabum ef yn nireidi ei fachgendod. Wedi tyfu ymunodd a'r ~~HEIR~~
Lluoedd Arfog, daeth adref ac aeth i goleg Harlech, a minnau yn gofidio na
buaswn wedi mynd gydag ef yno. Fodd bynnag ~~JHM~~ llwyddodd yno ac fe aeth i
goleg y Brifysgol ac yna yn athro Cymraeg, ac yn y gwaith hwnnw yr ymunodd
a'r grwp ym Mae Colwyn yn rhagluniaethol amserol. Ni chellodd ei gysylltiad
a mi, yn wir daeth yn ddigon o ffrind i siarad yn blaen er nad oedd angen
iddo, fe'm hwynebodd ar dyfodol anochel sef marwolaeth Mam. Fe wnaeth fwy
na hynny ~~hyspned~~ ^{hyspned}, rhywbeth na allwn i ei wneud, trefnodd fod grep y
Spastics yntrefnu i gael dwr oer i mewn i'r gegin ar waethaf anfodlonrwydd Mam.
Breuddwyd arall oedd ganddi hi sef cael ty unllawr yn rhywle.

Yn y cyfamser fe wellhaodd fy Mam yn ddigon da i allu gwneud bron bopeth
yn y ty er bod cynhorthwy cartref yn dod. Ai i bobman, ac anodd oedd ei rhwystro ~~gan~~
gan mor fywys ydoedd, Cafodd aml i ddamwain a bu yn yr ysbyty ddiwywaith fel
canlyniadau i godymau cyn yr ymosodiad olaf.

Beth bynnag fe ddaeth y gwahanu terfynol ac gnochel yn niwedd mis Mehefin yn 1963. ~~En~~ tharo gan boen yn ei phen a gafodd y tro hwnnw drachefn ac aethpwyd a hi i'r ysbyty lle bu yno am wythnos yn anwybodol. ~~Bum yn y~~ ^{un} ~~ty fy hunan~~ am ben bore fe'm galwyd i'r ysbyty ac un o weision fy hen feistr yn fy'n anfon, fe'm gadawyd yno, ac ar ben fy hun ~~o~~ ^o y chlywais ~~fod~~ ^{fy} mam wedi gadael pob gofid a siom rhyw awr cyn i mi gyrraedd. Gofynnwyd imi a hoffwn ei gweld; ~~daethwn erbyn hyn~~ ^{mi} gredu mai edrych ym myw llygad pob profiad chwythig oedd ~~yn~~ ^y peth gorau i'w wneud pob amser, felly y cefais ei gweld. Yna fe'm cefais fy hun mewn ystafell a ffenestri ychel yn disgwyl y gweinidog. Llechai ofn yn fy nghalon na chawn yr awentau yn fy nwylo ~~yn~~ ^{yn} ~~ystod dyddiau hyd y cynhebrwng~~, a cefais sgwrs ag ef ~~yn dweud~~, a dywedais wrtho yr hoffwnne fod ym mhob trafod a fyddai ynghylch y cynhebrwng, mor hawdd yw beirniadu ofnau pobl eraill. Fe drodd pethau yn well na'm hofnau i gyd, myfi gafodd y gwaith o gofrestru marwolaeth mam a theimlo ar achlysur chwythig fy mod yn berson cyfrifol a bod ywladwriaeth yn fy'n nghydnabod fel dinesydd.

Fodd bynnag daeth fy nghyfaill i'r adwy drachefn ynghyd a grwp y Spastig a ~~roes~~ imi fan bethau yn y ty i'm cynorthwyo. Rhoesant beiriant nwy i ferwi dŵr yn y gegin a grât newydd yn yr ystafell fyw a phrocer nwy i gynnau tan yn y bore. Gwyddai fy nghyfaill beth allwn ei wneud, ef oedd yr unig un o'r grwp oedd yn fy nabod. Mor ffodus i mi oedd eu fod wedi ymuno a'r ~~grwp~~ ^{mudiad} ychydig amser cyn yr argyfwng, yn yr union adeg yr oedd arnaf ~~angen~~ ^{angen} am ei gymorth ~~fywaf~~. Yr oedd cymaint o bobol mor amheus a'm gallu i aros yn fy'n nhy fy hunan. Un ohonynt oedd y Swyddog Iechyd, ^{ac} bu rhaid i ~~mi~~ ^{John} ~~cyfaill~~ John fynd ato i'w berswadio i roi cyfle imi, ai sicrhau y gallwn ofalu am fy'n nglanweithdra, ac y gallwn byw heg fy mheryglu fy hun, ^{ac} aeth yn gyfrifol amdanaf. Clywais ganddo na ~~oedd~~ ^{oedd} roi'r meddyg lawer o siawns imi ond am ychydig ~~disoedd~~. Aeth y misoedd bellach yn bedair blynedd ar ddeg, llwyddais i wrthbrofi ei ofnau. Fe gyfiawnhawyd ffydd fy nghyfaill, ond mae'n debyg fod mwy yn cytuno a'r Meddyg nag ~~ar~~ ^{ar} John ar y pryd. Testurio oedd yr unig beth a wnaent hwy.

Cefais ail gyfle i wneud gwaith a ddysgais flynyddoedd ynghynt gyda'm hen feistr sef argraffu. Digwyddodd drwy gyfrwng mudiad y spastigs, cefais gyfle i fynd am wythnos i gwrs asesu yn nrhef ^{ne} Bournemouth. Penderfynais y ceisiwn ladd dau dderyn ar un ergid fel petai. Bum yn meddwl am fynd am wyliau gyda'm cerbyd modur ers amser, ond gwyddwn y byddai Mam yn rhy bryderus i'm gollwng o'i gafael pan oedd hi'n fyw, fe ddywedodd hynny ei hun

wrthyl ~~o rhan hynny~~. Beth bynnag penderfynais fentro i ^{ne}Bormouth fy hunan a chymerdd tri diwrnod i fynd: Aros yn Amwythig y noson gyntaf, a threfnodd y mudiad i ~~mi~~ aros gyda teulu a chanddynt fachgen yn yr un cyflwr a mi yng nghyffiniau Gloucester. Cyrhaeddais ^{ne}Bormouth yn ddianaf er bod cyfaill o wag wedi gofyn imi cyn i mi gychwyn, a oeddwn i wedi gwneud fy ewyllys! Sierha ^{ea}ais ef nad oedd angen gwneud hynny, ~~fy~~ ^{ne}mod yn dod yn fy ol yn fyw ac iach. Mwynheais y cwrs yn Bormouth, cawsom ddarlithoedd oedd yn trafod ein perthynas a'r byd oddi-allan a'n cyfrifoldeb ni yn ogystal a'n hawliau wrth ei wynebu. Beth bynnag canlyniad y cwrs a fu rhoi imi beiriant argraffu gyda'r amcan o wneud gwaith iddynt hwy, sef, argraffu cardiau ~~ad~~olig iddynt. Bu'r gwaith hwnnw yn fwy proffidiol imi na dim arall a gefais, a bum yn gofidio na bawn wedi prynu peiriant tebyg ~~plynyddoedd~~ ynghynt. Beth bynnag dyna fum yn ei wneud am ddwy neu dair blynedd ac yn y cyfamser, prynu teip fy hun er mwyn cychwyn busnes preifat, oblegid ai'n ~~my~~ ^{ne}costus i anfon y cardiau ol a blaen.

~~Byddwn i~~ ^{Tall} ~~re~~nt y buom trwy'r blynnyddoedd hyd nes bu farw fy Mam ^{ne}ychydig wedyn penderfynodd y perchennog ei werthu. ~~Phagluniaethol~~ fe ddaeth arian i mi trwy ewyllys perthynas a gellais brynu ^{ne}ty yn eiddo i mi fy hun, a'm cyfaill eto yn ~~cym~~ ^{ne}beryd rhan yn y prynu. ~~'R~~Beddwn bellach yn abl i wneud fel y mynwn ag ef a ~~ch~~ ^{ne}geais gyfle wedyn gydag arian ^{ne}chwanegol a gefais, a'r Mudiad Spastig yn helpu yn ogystal a'r grant gan y Llywodraeth i newid ystafell wely yn ystafell baddon a thoiled a chafwyd baddon arbenig, un y gallwn eistedd ynddo yn lle ~~gor~~ ^{ne}god gorwedd. ~~C~~ ^{ne}geais yn sgil hynny gynorthwyon eraill i'm helpu o ~~g~~ ^{ne}gwmpas y ty.

Dyna'r modd y daethum i fedru byw yn weddol ddirwysr ar ~~ben~~ ^{ne}fy mhen fy hun ^{ne}i fwynhau bywyd, a chael ^{ne}gwyliau bob ~~pr~~ ^{ne}blwyddyn. Wedi cael blas ar deithio yn fy ngherbyd rhaid oedd ~~cael~~ ^{ne}ailadrodd y profiadau a gefais y tro cyntaf. Bum ddwywaith cyn belled a Phlymouth a chael ~~mynd~~ ^{ne}trwy Dde Cymru yn yr fargen, a ~~chael~~ ^{ne}profiad o antur. Diddorol oedd ymateb rhai pobl imi ar y daith, Mewn ^{ne}gwesty yn Aberystwyth, er engraifft, euthum gyda'r nos i'r ystafell ginio am fwyd, ^{ne}eistedd wrth fwrdd ar ben fy hun. Gwelwn ~~wr~~ ^{ne}a adnabyddwn

un o gerddorion amlycaf Cyfaru, ac arweinydd cymanfaoedd canu, yn eistedd gyda rhywun arall wrth furdd o'm blaen. Gyda i mi eistedd i lawr, clywsais ef yn dweud ei fod yn methu deall sut 'roedd pobl fel fi yn gallu mwynhau bywyd. Roeddwn i yn rhy swil i'm cyflwyno fy hun iddo i ddweud wrtho beth oeddwn yn ei wneud y dyddiau hynny. Sfallai y byddai'n lledio canu a chael gynulleidfa i ganu "Yn rasnwin ar y groes/fe drois y drain./Caed bala o archoll ddofn/y bicell fain." Mae gwahaniaeth mawr rhwng canu canu a'i weld yn gweithio ei hun allan yng nghanol ffeithiau celyd bywyd bob dydd. Bu digwyddiad arall chwythig yr ail noson yng Nghasnewydd. Wedi i mi gael gwesty yno trwy gyfrwng y Spastics, y darganfu y wraig a gytunodd i'a derbyn yn sydyn na allai fy nghymeryd a chymerodd arni na wyddai ddim byd andanaf, bu raid imi o hynny hyd hanner nos, chwilio am westy arall, ac onibai i rywun fethu cyraedd un lle buaswn allan drwy'r nos. Yn ffodus cefais ei wely ef. Yn rhyfedd iawn fe drodd pethau yn well hyd yn oed na phe bawn wedi cael y gwesty cyntaf. Cefais arbed pyntheg swllt ar hugain yn un peth, ac at hynny dim ond tair gris oedd i'r ystafell wely, buasai'n rhaid i mi d'ringo llawer mwy yn y llall.

Mae'r hanesyn hwn yn wir yn ddarlun bychan o'm bywyd oll. Bu'n anturiaeth gyda'i ddigwyddiadau hapus a thrist, digalon ac fel arall. Dois adref o Plymouth ac o lawer taith arall yn ddianaf er holl beryglon y daith. O fewn milltir â'i cartref byddwn yn falch ac yn ddiolchgar fod diwedd y daith ar ben ac fod cartref yn yayl. Wn i ddis faint fydd hyd taith fy nywyd. Wyr neb arall chwaith on yr un teisladau sydd ynof a sydd wrth ddod adref yn fy ngherbyd. Diolch am holl anturiaethau'r daith. Diolch i'r llu cyfeillion am helpodd. Diolch i'r rhai a roes gyfrifoldeb imi, ac a'm triniodd fel person, ac nid fel methedig: am gael bod yn ysgrifennydd y F.E.A. a chyngor yr eglwys lleol: i'r eglwys am hethlodd yn flaenor ynddi. Diolch i bawb. Hoffaf ffordd yr eglwys esgobol o gyshwyn cynhebrwng, yr offeiriad, yn cyfarfod yr arch wrth y porth ac yn herio angau gydag adnoda o'r Testament Newydd, "Myfi yw'r Atgyfodiad a'r Bywyd, yr hwn sydd yn credu ynof fi, ni bydd marw yn dragwydd..."

"HIRAETHLYN".